
# Caerdydd Yfory

**Adroddiad ar Effaith Tueddiadau Rhagamcanol yng Nghaerdydd**



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# CYNNWYS

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **CYFLWYNIAD** | **3** |
| **2.** | **POBL A PHOBLOGAETH** | **4** |
| 2.1 | Demograffeg | 5 |
| 2.2 | Mudo | 10 |
| **3.** | **IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL** | **11** |
| 3.1 | Gordewdra | 12 |
| 3.2 | Bywyd Bob Dydd | 12 |
| 3.3 | Gofal Anffurfiol | 13 |
| 3.4 | Dementia | 15 |
| 3.5 | Defnyddio Cyffuriau | 16 |
| 3.6 | Cwympiadau | 16 |
| 3.7 | Canser | 17 |
| 3.8 | Tlodi Tanwydd | 18 |
| 3.9 | Iechyd Meddwl | 19 |
| 3.10 | Cynllunio Iechyd | 20 |
| **4.** | **TAI A SWYDDI** | **22** |
| 4.1 | Cynllunio Datblygu Lleol | 23 |
| 4.2 | Demograffeg Newidiol | 24 |
| 4.3 | Galw am Dai Cymdeithasol | 27 |
| **5.** | **ADDYSG A SGILIAU** | **28** |
| 5.1 | Galw ar Ysgolion | 29 |
| **6.** | **TRAFNIDIAETH** | **32** |
| 6.1 | Cymudo | 33 |
| 6.2 | Trafnidiaeth a Bywyd Braf | 34 |
| **7.** | **ECONOMI** | **37** |
| 7.1 | Cyflogaeth | 38 |
| 7.2 | Cymwysterau | 42 |
| 7.3 | Anweithgarwch Economaidd | 43 |
| 7.4 | Budd-daliadau Allan o Waith | 44 |
| 7.5 | Sylfaen Sgiliau'r Dyfodol | 46 |
| 7.6 | Busnesau | 49 |
| 7.7 | Cyllid Sector Cyhoeddus | 53 |
| **8.** | **NEWID YN YR HINSAWDD A'R AMGYLCHEDD** | **54** |
| 8.1 | Newid yn yr Hinsawdd | 55 |
| 8.2 | Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | 56 |
| 8.3 | Llygredd Aer | 58 |
| 8.4 | Perygl Llifogydd | 59 |
| Atodiad I – Ymgynghoriad ar y Gwasanaeth Iechyd | | 60 |
| Atodiad II – Gweithgarwch Economaidd | | 62 |
| Atodiad III – Sgiliau Cyflogwyr | | 63 |
| Atodiad IV – Perygl Llifogydd Caerdydd | | 67 |

# 1. CYFLWYNIAD

Mae dadansoddi tueddiadau'r dyfodol yn thema allweddol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cynhyrchodd Cyngor Caerdydd ei Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol cyntaf yn 2017. Bum mlynedd yn ddiweddarach, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr ystadegau a'r ffigurau o 2017.

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad cyfatebol, 'Tueddiadau'r Dyfodol: 2021', sy'n cwmpasu'r tueddiadau hirdymor a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar Gymru ar draws pedair thema gyffredinol: Pobl a Phoblogaeth, Anghydraddoldebau, Iechyd a Chyfyngiadau'r Blaned, a Thechnoleg.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n fanylach ar y tueddiadau sy'n ymwneud â Chaerdydd, tra'n cydnabod y gallai ffactorau allanol eraill, megis Brexit a'r pandemig Covid-19, gael effaith nas gwelwyd eto ar lawer o'r setiau data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno rhagolygon ond mae'n ceisio nodi tueddiadau'r dyfodol o ddata ystadegol sy'n bodoli eisoes.

Mae rhagweld y dyfodol yn dasg anodd dros ben. Fodd bynnag, er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol yn yr hirdymor, rhaid i ni ddefnyddio'r data sydd gennym i geisio dod o hyd i batrymau a thueddiadau, a defnyddio'r data hwn i ystyried y problemau, neu'r cyfleoedd, a allai godi yn y blynyddoedd i ddod.

# Pobl a Phoblogaeth

## 2.1 DEMOGRAFFEG

### Amcanestyniadau Poblogaeth: Cyd-destun

Pan baratowyd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol cyntaf Caerdydd yn 2017, roedd amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol yn 2014. Ar y pryd, awgrymodd y data hwn y byddai poblogaeth Caerdydd yn cynyddu 26% i 444,668 yn 2039 - sy'n sylweddol uwch nag unrhyw Awdurdod Cymreig arall, gyda Wrecsam yn y safle nesaf gyda chynnydd o 10%.

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf, sy'n seiliedig ar 2018, yn dangos newid sylweddol i ragfynegiadau, gyda phoblogaeth Caerdydd bellach yn cynyddu 8.1%, o 357,353 yn 2014/15 i 386,225 yn 2038/39, a 8.8% i 388,890 yn 2042/43. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2018 ar gael ar gyfer y cyfnod o 25 mlynedd rhwng 2018 a 2043. Fodd bynnag, mae'r adroddiad sy'n gysylltiedig â'r datganiad yn canolbwyntio ar 10 mlynedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad, gan fod amcanestyniadau'n tueddu i ddod yn fwyfwy ansicr yn y tymor hwy, gan y gallai llawer newid dros yr amser hwnnw.

Mae'r gwahaniaethau rhwng amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol 2014 a 2018 yn adlewyrchu nid yn unig y newid mewn tueddiadau demograffig a welwyd yn ystod y cyfnod hwn, ond hefyd y newid yn y fethodoleg rhwng y ddwy set o amcanestyniadau, yn ogystal â'r newid ym mlwyddyn sylfaen yr amcanestyniad.

O ran newidiadau demograffig, ar lefel Cymru, mae'r gyfradd genedigaethau wedi parhau i ostwng (gyda chyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn gostwng o 1.78 yn 2014 i 1.63 yn 2018), ac mae gwelliannau mewn disgwyliad oes wedi arafu, tra bod patrymau mudo wedi bod yn amrywio. Arweiniodd y newidiadau hyn at amcangyfrif poblogaeth o 3.14 miliwn ar gyfer Cymru yn 2018, 8,800 (0.3%) yn uwch nag a ragwelwyd ar gyfer 2018 gan yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar sail 2014.

O ran newidiadau i fethodoleg, cyhoeddodd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ym mis Chwefror 2020, gan roi trosolwg o'r newidiadau methodolegol a wnaed i'r amcanestyniadau awdurdod lleol ers yr amcanestyniadau awdurdod lleol ar sail 2014, gan gynnwys:

- Newid y tybiaethau ar gyfer mudo mewnol, fel eu bod yn seiliedig ar gyfraddau mudo yn hytrach na niferoedd sefydlog, a


- Chyfyngu ar gyfanswm yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol, a rhai o'r cydrannau, ar gyfer y 22 awdurdod lleol yng Nghymru i'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar sail 2018 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Cyhoeddwyd diweddariad arall ym mis Gorffennaf 2020, yn cyhoeddi'r dyddiad cyhoeddi ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd awdurdod lleol diwygiedig, a'r penderfyniad i ddychwelyd at beidio â chyfyngu ar yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol.

## Newid Poblogaeth Amcanestynedig Caerdydd

Mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020 yn amcangyfrif bod poblogaeth Caerdydd yn 369,202 ac, fel y nodwyd, mae rhagfynegiadau poblogaeth 2018 yn amcangyfrif y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu i 388,890 yn 2042/43.


### Ffigur 1: Cyfanswm Amcanestyniad yn ôl Amrywiolyn, Caerdydd[1]




## Newid Poblogaeth Amcanestynedig yn ôl Awdurdod Lleol

Drwy ganolbwyntio ar y blynyddoedd 2018 i 2028, amcangyfrifir y bydd gan Gaerdydd y 5fed cynnydd uchaf mewn poblogaeth, ar y cyd ag Abertawe, gyda chynnydd o 3.2%. Casnewydd fydd yn dangos y cynnydd uchaf o 7.2%. Rhagwelir y bydd Caerdydd hefyd yn parhau i fod â'r boblogaeth fwyaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru erbyn 2028, sef dros 375,700 o bobl. Mae hyn dros 121,000 yn fwy o bobl na'r ail awdurdod lleol mwyaf, Abertawe, a rhagwelir y bydd yn cyfrif am bron i 12% o'r boblogaeth yng Nghymru.

### Ffigur 2: Newid canrannol yn y prif amcanestyniadau poblogaeth yn ôl awdurdod lleol, 2018 i 2028





[1] *Yr amcanestyniad 'blaenaf' yw'r prif amcanestyniad, ac mae'n seiliedig ar y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol yr ystyrir eu bod yn adlewyrchu'r patrymau demograffig orau ar y pryd. Mae dau amcanestyniad arall, neu amcanestyniadau 'amrywiolyn', hefyd ar gael ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad. Maent yn seiliedig ar senarios amgen (uchel yn erbyn isel) o ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo o'u cymharu â'r prif amcanestyniad, gan roi syniad o ansicrwydd ond nid terfynau uchaf neu isaf ymddygiad demograffig y dyfodol. Hefyd, mae amrywiolion yn seiliedig ar dybiaethau mudo amgen a fydd ar gael yn y dyfodol wedi'u cynnwys.*

Mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd[2], sy'n cwmpasu De-ddwyrain Cymru, amcangyfrif poblogaeth cyfredol o 1,532,828 ar gyfer 2018, y rhagwelir y bydd yn cynyddu i 1,584,379 yn 2028, cynnydd o 3.4%.

Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru gyfan yn cynyddu 2.7% dros y deng mlynedd nesaf a 3.7% erbyn 2043. Gellir profi'r tybiaethau y mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig arnynt unwaith y cyhoeddir canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn 2022.


**Ffigur 3: Poblogaeth amcanes tynedig yn ôl awdurdod lleol, 2028**




## Amcanestyniadau Newid Poblogaeth yn ôl Dinas Graidd

Rhagwelir y bydd cynnydd o 3.2% yn y boblogaeth yng Nghaerdydd (o fewn y 10 mlynedd nesaf) - yr ail isaf allan o'r Dinasoedd Craidd, fel y dangosir yn Ffigur 4. Mae hyn yn newid sylweddol o ddadansoddiad 2017, lle rhagwelwyd mai Caerdydd fyddai â'r cynnydd mwyaf yn y boblogaeth dros yr 20 mlynedd nesaf (yn uwch na phob Dinas Graidd).

**Ffigur 4: Newid Canrannol Amcanestynedig yng Nghyfanswm Poblogaeth Dinasoedd Craidd, 2018 i 2028**





[2] *Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cwmpasu 10 ardal awdurdod lleol De-ddwyrain Cymru – Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; a Bro Morgannwg.*

## Amcanestyniadau Newid Poblogaeth yn ôl Oedran

Dros y deng mlynedd nesaf, disgwylir i ganran y rhai dros 65 oed yng Nghaerdydd gynyddu 15.7% a bydd yn cyfrif am tua 15.8% o'r boblogaeth gyfan. Rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc (o dan 16 oed) yn gostwng ychydig o flwyddyn i flwyddyn, gan gyfrif am tua 17.3% o'r boblogaeth yn 2028.

**Ffigur 5: Amcanestyniadau Poblogaeth Caerdydd yn ôl Oedran**





## Tueddiadau Disgwyliad Oes

Cyhoeddwyd tablau disgwyliad oes yn 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gyda ffigurau'n seiliedig ar nifer y marwolaethau a gofrestrwyd ac amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth dros dair blynedd yn olynol. Mae'r tablau'n dangos mai'r disgwyliad oes adeg geni yng Nghaerdydd ar gyfer 2018-2020 yw 82.77 o flynyddoedd i Fenywod a 77.34 i Ddynion. Mae hyn wedi gostwng ychydig o gymharu â 2017-2018, pan oedd y ffigurau yn 83.04 a 78.38 yn y drefn honno.

Fodd bynnag, fel y gwelir yn Ffigur 6, mae disgwyliad oes wedi bod yn cynyddu ers 2001/2003. O ran menywod, mae'r disgwyliad oes yng Nghaerdydd wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru ers 2009/11, ac o ran dynion, mae'r disgwyliad oes wedi dilyn cyfartaledd Cymru yn gyson. Nid yw'r ystadegau hyn yn cynnwys unrhyw rai o'r cyfnodau lle bydd Covid-19 wedi cael effaith. Rhagwelir y bydd gostyngiad pellach mewn disgwyliad oes ar ôl cynnwys marwolaethau Covid-19.

**Ffigur 6: Tueddiadau Disgwyliad Oes Caerdydd**



## Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd

Fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Caerdydd, mae'n ofynnol i Gyngor Caerdydd gynnal adolygiad llawn o'i CDLl mabwysiedig o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Ar 30 Mawrth 2021, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Cyflawni CDLl Newydd Caerdydd, a chynhaliwyd ymgynghoriad wedyn rhwng 28 Mai a 23 Gorffennaf 2021 ar y weledigaeth, y materion a'r amcanion drafft. Mae sawl cam wrth baratoi CDLl a bwriedir mabwysiadu'r cynllun newydd ym mis Hydref 2024. Bydd y CDLl Newydd yn helpu i lunio Caerdydd dros y 15 mlynedd nesaf hyd at 2036 a bydd yn cynnwys strategaeth a pholisïau newydd i arwain a rheoli twf a newid.



## 2.2 MUDO

Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am y newidiadau a ragwelir o ran ethnigrwydd yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, fel rhan o'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol, ceir gwybodaeth am fudo.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y mewnfudo ac allfudo rhyngwladol a ragwelir, yn ogystal â'r mewnfudo ac allfudo mewnol a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru[3].

**Ffigur 7: Mewnfudo ac Allfudo Rhyngwladol Amcanestynedig, a Mewnfudo ac Allfudo Mewnol yn ôl Awdurdod Lleol, 2018 a 2028**

| | Mudo rhyngwladol | | | | Mudo mewnol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mewnfudo | | Allfudo | | Mewnfudo | | Allfudo | |
| | 2018-19 | 2027-28 | 2018-19 | 2027-28 | 2018-19 | 2027-28 | 2018-19 | 2027-28 |
| Ynys Môn | 120 | 120 | 60 | 60 | 2,400 | 2,500 | 2,300 | 2,200 |
| Gwynedd | 1,130 | 1,130 | 490 | 490 | 5,700 | 5,900 | 5,800 | 5,900 |
| Conwy | 280 | 280 | 200 | 200 | 4,900 | 5,100 | 4,200 | 4,200 |
| Sir Ddinbych | 240 | 240 | 140 | 140 | 4,500 | 4,600 | 4,200 | 4,100 |
| Sir y Fflint | 540 | 540 | 390 | 390 | 5,100 | 5,100 | 4,800 | 4,900 |
| Wrecsam | 580 | 580 | 620 | 620 | 4,000 | 4,100 | 4,100 | 4,000 |
| Powys | 350 | 350 | 280 | 280 | 5,600 | 5,700 | 5,200 | 5,100 |
| Ceredigion | 620 | 620 | 390 | 390 | 5,200 | 5,500 | 5,800 | 5,400 |
| Sir Benfro | 300 | 300 | 180 | 180 | 4,300 | 4,400 | 3,700 | 3,600 |
| Sir Gâr | 530 | 530 | 320 | 320 | 6,800 | 6,900 | 5,900 | 5,900 |
| Abertawe | 2,530 | 2,530 | 1,130 | 1,130 | 10,100 | 10,400 | 10,500 | 10.600 |
| Castell-nedd Port Talbot | 280 | 280 | 120 | 120 | 4,900 | 5,000 | 4,600 | 4,500 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 360 | 360 | 190 | 190 | 4,600 | 4,700 | 3,800 | 3,800 |
| Bro Morgannwg | 340 | 340 | 200 | 200 | 5,400 | 5,400 | 4,700 | 4,700 |
| Caerdydd | 5,450 | 5,450 | 3,490 | 3,490 | 20,600 | 21,200 | 22,500 | 22,700 |
| Rhondda Cynon Taf | 820 | 820 | 330 | 330 | 7,100 | 7,200 | 6,900 | 6,900 |
| Merthyr Tudful | 180 | 180 | 90 | 90 | 1,600 | 1,600 | 1,500 | 1,500 |
| Caerffili | 180 | 180 | 130 | 130 | 4,900 | 4,900 | 4,700 | 4,700 |
| Blaenau Gwent | 110 | 110 | 70 | 70 | 1,900 | 1,900 | 1,800 | 1,800 |
| Torfaen | 100 | 100 | 70 | 70 | 2,800 | 2,800 | 2,500 | 2,500 |
| Sir Fynwy | 230 | 230 | 150 | 150 | 4,700 | 4,800 | 4,200 | 4,100 |
| Casnewydd | 1,000 | 1,000 | 590 | 590 | 6,100 | 6,100 | 5,700 | 5,900 |

Mae'r tabl yn dangos, o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, y gellir gweld y lefel uchaf o fewnfudo ac allfudo rhyngwladol ragamcanol yng Nghaerdydd. Mae'n anodd rhagweld pa grwpiau ethnig fydd yn cyfrannu at y cynnydd rhagamcanol hwn oherwydd newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol byd-eang. Disgwylir i Brexit, er enghraifft, a newidiadau yn yr amgylchedd rhyngwladol, ddylanwadu ar nifer yr ymfudwyr o wledydd y tu allan i'r UE.

*[3] Mudo net yw'r gwahaniaeth rhwng nifer y bobl sy'n symud i ardal a nifer y bobl sy'n symud allan o ardal. Mae'n negyddol pan mae mwy o bobl yn symud allan o ardal nag sy'n symud i mewn. Mae'n bositif pan mae mwy o bobl yn symud i ardal nag sy'n symud allan.*

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol[4]

[4] *Sylwch: Yn adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017 Caerdydd, cynhwyswyd gwybodaeth gan Daffodil, sef system ar y we a ddatblygwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r system yn dwyn ynghyd - mewn un lle - y wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio pa wasanaethau gofal y gallai fod eu hangen yn yr ardal leol yn y dyfodol. Mae'r wybodaeth a gedwir am y system hon wedi newid ers yr adroddiad diwethaf ac mae bellach yn fwy cysylltiedig â gwasanaethau gofal.*


## 3.1 GORDEWDRA

Mae data mewn perthynas â gordewdra ar gael mewn perthynas â phlant oedran ysgol ac fe'i cymerir o Arolwg 'Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol' (YIPY) 2017/18. Cynhelir yr arolwg bob pedair blynedd ymhlith plant ysgol ym mlynyddoedd 7 i 11 (11 i 16 oed).

Yng Nghaerdydd, rhagwelir y bydd nifer y plant 11 i 16 oed sy'n ordew yn cynyddu 7.2% erbyn 2028. Yn dilyn hynny, rhwng 2028 a 2040, rhagwelir y bydd nifer y plant 11 i 16 oed sy'n ordew yn gostwng 3%.

Mae'n ymddangos bod dynion yn fwy agored i ordewdra na menywod, gyda rhagfynegiad y bydd 32% yn fwy o ddynion na menywod yn dioddef problemau gordewdra/gorbwysedd dros y cyfnod o 20 mlynedd.

**Ffigur 8: Nifer Rhagfynegol y Plant 11 i 16 oed sy'n Rhy Drwm neu'n Ordew yng Nghaerdydd, 2020 i 2040**




## 3.2 BYWYD BOB DYDD


Caiff yr angen am ofal cymdeithasol ei fesur yn aml drwy Weithgareddau Bywyd Bob Dydd (GBBBau) a Gweithgareddau Sylfaenol Bywyd Bob Dydd (GSBBBau). Mae GBBBau yn weithgareddau sy'n ymwneud â gofal personol a symudedd o amgylch y cartref (e.e. bwyta, ymolchi, mynd i'r toiled ac ati) ac maent yn agweddau pwysig ar fyw'n annibynnol.

Mae'r ffigurau canlynol, a gymerwyd o Daffodil, yn dangos y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a fydd yn cael trafferth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd ac felly efallai y bydd angen cymorth arnynt drwy ofal cymdeithasol. Rhagwelir y bydd cynnydd o 25.4% yn nifer y bobl sydd angen cymorth i gyflawni gweithgareddau bywyd bob dydd rhwng 2020 a 2040. Dylid nodi hefyd y rhagwelir y bydd canran uwch o fenywod yn cael trafferth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd na dynion. Gall hyn fod oherwydd y gwahaniaethau mewn disgwyliad oes.

**Ffigur 9: Nifer Rhagfynegol y Bobl a fydd yn Cael Trafferth gyda Gweithgareddau Bywyd Bob Dydd yn ôl Ystod Oedran,**

| Ystod Oedran | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 |
|---|---|---|---|---|---|
| **65-69** | 2,904 | 3,156 | 3,476 | 3,401 | 3,181 |
| **70-74** | 2,420 | 2,401 | 2,624 | 2,909 | 2,864 |
| **75-79** | 2,583 | 3,196 | 3,193 | 3,520 | 3,947 |
| **80+** | 6,955 | 7,085 | 8,158 | 8,960 | 9,924 |

**Ffigur 10: Nifer Rhagfynegol y Bobl 65 oed a throsodd a fydd yn Cael Trafferth gyda Gweithgareddau Bywyd Bob Dydd, 2020 i 2040**





## 3.3 GOFAL ANFFURFIOL

Y brif ffynhonnell ddata mewn perthynas â gofal anffurfiol yw Cyfrifiad 2011, sy'n dangos nifer yr oriau o ddarpariaeth gofal a roddir gan unigolion yn anffurfiol.

Mae Ffigur 11 yn dangos nifer y bobl yng Nghaerdydd sy'n darparu gofal yn anffurfiol am rhwng 1 a 50+ awr (di-dâl). Nodir bod llawer mwy o fenywod yn darparu gofal anffurfiol na dynion; fodd bynnag, dros y cyfnod o 20 mlynedd rhagwelir y bydd nifer y dynion sy'n darparu gofal yn cynyddu 10.3 %, tra bydd nifer y menywod ond yn cynyddu 3.7 %.

**Ffigur 11: Nifer Rhagfynegol y Bobl sy'n Darparu Gofal Di-dâl yng Nghaerdydd, 2020 i 2040**



Mae Ffigur 12 yn dangos y newidiadau a ragwelir yn ystod oedran y darparwyr gofal yn ôl nifer yr oriau o ddarpariaeth a roddir bob wythnos. Dylid nodi y bydd y ffigurau hyn yn cael eu disodli unwaith y bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn cael eu cyhoeddi.

Mae'r newid a ragwelir dros gyfnod o 20 mlynedd yn nifer y bobl sy'n darparu gofal di-dâl yn amrywio'n sylweddol ar draws y grwpiau oedran; rhagwelir y bydd y rhai o dan 50 oed sy'n darparu gofal di-dâl yn cynyddu 1.5% yn unig, tra rhagwelir y bydd y rhai dros 50 oed yn cynyddu gan ganran sylweddol uwch, 18.2%.

**Ffigur 12: Newidiadau Rhagamcanol yn Ystod Oedran Darparwyr Gofal yng Nghaerdydd yn ôl Nifer yr Oriau o Ddarpariaeth a Roddir yr Wythnos, 2020 i 2040**


| Ystod Oedran | 2020 | | | 2040 | | | Gwahaniaethol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer yr Oriau** | **1 i 19** | **20 i 49** | **50+** | **1 i 19** | **20 i 49** | **50+** | **1 i 19** | **20 i 49** | **50+** |
| **0-5** | 745 | 102 | 99 | 680 | 93 | 91 | -8.7% | -8.8% | -8.1% |
| **16-17** | 303 | 54 | 31 | 328 | 58 | 33 | 8.3% | 7.4% | 6.5% |
| **18-19** | 534 | 137 | 85 | 583 | 150 | 93 | 9.2% | 9.5% | 9.4% |
| **20-24** | 1,764 | 440 | 375 | 1,887 | 471 | 401 | 7.0% | 7.0% | 6.9% |
| **25-29** | 1,604 | 394 | 509 | 1,682 | 414 | 530 | 4.9% | 5.1% | 4.1% |
| **30-34** | 1,437 | 362 | 636 | 1,547 | 390 | 680 | 7.7% | 7.7% | 6.9% |
| **35-39** | 1,619 | 430 | 779 | 1,523 | 404 | 725 | -5.9% | -6.0% | -6.9% |
| **40-44** | 1,814 | 454 | 765 | 1,904 | 477 | 800 | 5.0% | 5.1% | 4.6% |
| **45-49** | 2,360 | 521 | 785 | 2,572 | 568 | 855 | 9.0% | 9.0% | 8.9% |
| **50-54** | 2,979 | 639 | 924 | 2,912 | 623 | 902 | -2.2% | -2.5% | -2.4% |
| **55-59** | 3,005 | 699 | 1,074 | 2,843 | 661 | 1,015 | 5.4% | 5.4% | -5.5% |
| **60-64** | 2,198 | 559 | 1,066 | 2,136 | 544 | 1,037 | -2.8% | -2.7% | -2.7% |
| **65-69** | 1,392 | 407 | 1,040 | 1,525 | 446 | 1,139 | 9.6% | 9.6% | 9.5% |
| **70-74** | 930 | 339 | 1,043 | 1,097 | 400 | 1,232 | 18.0% | 18.0% | 18.1% |
| **75-79** | 495 | 223 | 781 | 756 | 340 | 1,193 | 52.7% | 52.5% | 52.8% |
| **80-84** | 298 | 144 | 566 | 443 | 214 | 842 | 48.7% | 48.6% | 48.8% |
| **85+** | 183 | 88 | 396 | 276 | 134 | 607 | 50.8% | 52.3% | 53.3% |

## 3.4 DEMENTIA

Mae nifer yr achosion o ddementia yn deillio o astudiaeth sy'n amcangyfrif nifer y bobl hŷn 65 oed a throsodd sy'n byw gyda dementia yn y DU (2019-2040) a chostau gofal dementia (Wittenberg et al 2019). Cynhyrchwyd amcanestyniadau gan ddefnyddio fersiwn wedi'i diweddaru o fodel a ddatblygwyd gan y Ganolfan Polisi a Gwerthuso Gofal (CPGG) yn Ysgol Economeg Llundain ar gyfer yr astudiaeth Modelu Canlyniadau ac Effeithiau Cost Ymyriadau ar gyfer Dementia (MODEM).

Mae Ffigur 13 yn dangos amcangyfrif o nifer y bobl dros 65 oed yng Nghaerdydd a fydd yn dioddef o wahanol gamau dementia. Mae hyn yn rhoi rhyw syniad o'r effaith a gaiff ar ofal cymdeithasol.

**Ffigur 13: Tueddiadau yng Nghaerdydd ar gyfer Pobl Dros 65 oed sy'n Dioddef o Ddementia, 2020 i 2040**




## 3.5 DEFNYDDIO CYFFURIAU

I nodi defnydd problemus o gyffuriau a allai arwain at ddefnyddio Gwasanaethau Cymdeithasol, defnyddiwyd yr amcangyfrif defnydd cyffuriau problemus ar gyfer unigolion rhwng 15 a 64 oed o'r cyhoeddiad camddefnyddio sylweddau yng Nghymru diweddaraf (GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru 2019).

Mae'r siart canlynol yn dangos y rhagwelir y bydd nifer y bobl sydd â hanes o gamddefnyddio cyffuriau yng Nghaerdydd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn tan 2035, pan fydd y niferoedd yn lefelu gan roi cynnydd cyffredinol o 246 o unigolion (neu 4 %).

**Ffigur 14: Nifer Rhagfynegol y Bobl rhwng 15 a 64 oed sydd â Hanes o Gamddefnyddio Cyffuriau yng Nghaerdydd, 2020 i 2040**





## 3.6 CWYMPIADAU

Daw'r data ar dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer cleifion mewnol oherwydd cwympiadau o Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (CCGCC) ar gyfer oedolion dros 60 oed. Defnyddiwyd hyn ynghyd â data poblogaeth canol 2018 y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gyfrifo rhagfynegiad o'r duedd ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf mewn perthynas â phersonau dros 60 oed y gellid eu derbyn i'r ysbyty oherwydd cwymp.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 60 oed a throsodd sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i gwymp yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn yng Nghaerdydd, gan arwain at gynnydd o 40.5 % erbyn 2040.

**Ffigur 15: Nifer Rhagfynegol y Bobl 60 oed a Throsodd sy'n Dioddef o Gwympiadau yng Nghaerdydd, rhwng 2020 a 2040**




[5] *Y diffiniad o Ddefnydd Cyffuriau Problemus (DCP) yw chwistrellu cyffuriau neu ddefnydd hir/rheolaidd o opioidau, cocên a/neu amffetaminau.*


## 3.7 CANSER

Mae data achosion canser yn dangos nifer y bobl sy'n fyw ar 31 Rhagfyr 2015 sydd wedi cael diagnosis o ganser ar ryw adeg yn eu bywydau. Darperir data am achosion o ganser, cyffredinrwydd a marwolaethau gan Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU), sy'n cadw cofrestr o achosion canser a gadarnhawyd yng Nghymru.

Mae'r data wedi'i rannu yn ôl oedran ac amser ers cael diagnosis. Y canserau mwyaf cyffredin yw'r fron, y prostad, yr ysgyfaint a'r colon a'r rhefr. Mae data sylfaenol am nifer yr achosion a chyffredinrwydd ar gyfer 2015, y flwyddyn ddiweddaraf o ddata ar gyfer cyffredinrwydd. Cyfrifwyd cyfraddau poblogaeth gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015 ar gyfer Cymru.

Mae Ffigur 16 yn dangos y nifer a ragwelir o bobl sy'n byw gyda chanser ar gyfer amserlenni gwahanol. Mae'r nifer fwyaf o bobl yn perthyn i'r categori sy'n byw gyda chanser am 1 i 5 mlynedd. Disgwylir i bob grŵp gynyddu ychydig dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda'r rhai sy'n byw gyda chanser am hyd at flwyddyn yn dangos cynnydd o 16.1 % dros y cyfnod o 20 mlynedd. Bydd y rhai sy'n byw gyda chanser am 1 i 5 mlynedd yn cynyddu 6.9 % a bydd y rhai sy'n byw gyda chanser am 5 i 10 mlynedd a 10 i 21 mlynedd yn cynyddu 18.8 % a 22.7 % yn y drefn honno.

**Ffigur 16: Nifer Rhagfynegol y Bobl sy'n Byw â Chanser yng Nghaerdydd, 2020 i 2040**




Dangosir dadansoddiad pellach o'r ystadegau hyn yn y tabl canlynol, sy'n dangos dadansoddiad o'r uchod a ragwelir yn ôl categori oedran.


**Ffigur 17: Nifer Rhagfynegol y Bobl sy'n Byw â Chanser yng Nghaerdydd yn ôl Categori Oedran, 2020 i 2040**

| Predicted Number of people Living with Cancer for upto 1 year | | | | | | Predicted Number of people Living with Cancer for 5 to 10 yrs | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Age Range | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | Age Range | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 |
| 0-49 | 178 | 180 | 182 | 183 | 183 | 0-49 | 357 | 359 | 365 | 367 | 367 |
| 50-64 | 342 | 339 | 326 | 325 | 331 | 50-64 | 701 | 696 | 669 | 666 | 679 |
| 65-74 | 337 | 351 | 385 | 399 | 383 | 65-74 | 840 | 875 | 959 | 994 | 955 |
| 75+ | 308 | 343 | 373 | 410 | 456 | 75+ | 877 | 975 | 1061 | 1167 | 1298 |
| Predicted Number of people Living with Cancer for 1 to 5 yrs | | | | | | Predicted Number of people Living with Cancer for 10 to 21 yrs | | | | | |
| Age Range | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | Age Range | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 |
| 0-49 | 10017 | 10089 | 10242 | 10296 | 10296 | 0-49 | 306 | 308 | 313 | 314 | 314 |
| 50-64 | 118 | 117 | 112 | 112 | 114 | 50-64 | 648 | 644 | 618 | 616 | 627 |
| 65-74 | 495 | 515 | 564 | 585 | 562 | 65-74 | 886 | 922 | 1011 | 1048 | 1007 |
| 75+ | 959 | 1066 | 1159 | 1275 | 1418 | 75+ | 1221 | 1358 | 1477 | 1625 | 1807 |

## 3.8 TLODI TANWYDD

Mae ffigurau 18 a 19 yn dangos nifer y bobl y rhagwelir y bydd yn dioddef o dlodi tanwydd yng Nghaerdydd. Cyfrifir y mesur gan ddefnyddio dangosydd Incwm Isel, Costau Uchel (IICU) yr Arolwg Tai.
Gwnaed y cyfrifiad cyn y cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd yn 2021 ac felly rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn effeithio'n sylweddol ar y ffigurau hyn os bydd yn parhau. Gan ddefnyddio'r cyfrifiadau presennol, rhagwelir y bydd cynnydd o 10.4% dros yr 20 mlynedd nesaf yn nifer y bobl sy'n byw gyda thlodi tanwydd yng Nghaerdydd.

**Ffigur 18: Nifer Rhagfynegol y Bobl sy'n Byw gyda Thlodi Tanwydd yng Nghaerdydd, 2020 i 2040**




**Ffigur 19: Nifer Rhagfynegol y Bobl sy'n Byw gyda Thlodi Tanwydd yng Nghaerdydd yn ôl Ystod Oedran, 2020 i 2040**

| Ystod Oedran | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 |
|---|---|---|---|---|---|
| **16-24** | 7,944 | 8,237 | 9,064 | 9,049 | 8,550 |
| **25-34** | 7,866 | 7,863 | 7,533 | 7,857 | 8,388 |
| **35-44** | 2,711 | 2,794 | 2,869 | 2,847 | 2,717 |
| **45-54** | 2,866 | 2,735 | 2,806 | 2,910 | 2,976 |
| **55-64** | 5,721 | 5,871 | 5,595 | 5,343 | 5,487 |
| **65-74** | 2,859 | 2,975 | 3,262 | 3,382 | 3,247 |
| **75+** | 4,542 | 5,049 | 5,491 | 6,043 | 6,719 |
| **Cyfanswm** | 34,509 | 35,524 | 36,620 | 37,431 | 38,084 |


*[6] O dan y dangosydd IICU, ystyrir bod aelwyd yn dlawd o ran tanwydd os oes ganddi gostau tanwydd sy'n uwch na'r cyfartaledd ac y byddai ei hincwm gweddilliol yn is na'r llinell dlodi swyddogol pe bai'n gwario'r swm hwnnw. Mae'r IICU yn ystyried incwm, gofynion ynni a phrisiau tanwydd ar lefel aelwyd.*

## 3.9 IECHYD MEDDWL

Mae gwybodaeth iechyd meddwl yn seiliedig ar Amcanestyniadau Poblogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd ar Lwyfan Daffodil Cymru Llywodraeth Cymru.

O ran nifer y bobl dros 16 oed y rhagwelir y bydd yn dioddef o anhwylder meddwl cyffredin, dangosir amcanestyniadau dros gyfnod o 20 mlynedd yn Ffigur 20. Rhagwelir y bydd cynnydd o 4.2 % yn nifer y menywod ag anhwylder meddwl cyffredin dros gyfnod o 20 mlynedd a chynnydd o 7.9 % mewn perthynas â dynion.

**Ffigur 20: Nifer Rhagfynegol y Bobl dros 16 oed sydd ag Anhwylderau Meddwl Cyffredin yng Nghaerdydd, 2020 i 2040**




At hynny, dros yr 20 mlynedd nesaf rhagwelir y bydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n dioddef o Anhwylder Seicotig, Anhwylder Personoliaeth Gwrthgymdeithasol, Anhwylderau Deubegynol ac Anhwylder Personoliaeth Ffiniol.


**Ffigur 21: Nifer Rhagfynegol y Bobl yng Nghaerdydd sy'n Dioddef o Gyflyrau Iechyd Meddwl Amrywiol**

| Cyflwr | 2020 | | 2040 | | % Cynnydd Oedran | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion |
| Anhwylder Seicotig | 926 | 635 | 945 | 669 | 2.1% | 5.4% |
| Anhwylder Personoliaeth Gwrthgymdeithasol | 2429 | 6365 | 2509 | 6800 | 3.3% | 6.8% |
| Anhwylderau Deubegynol | 3036 | 3373 | 3122 | 3611 | 2.8% | 7.1% |
| Anhwylder Personoliaeth Ffiniol | 4096 | 2489 | 4270 | 2661 | 4.2% | 6.9% |

Ar draws y pedwar dosbarthiad, mae gwahaniaethau sylweddol yn ôl rhyw, gyda mwy o fenywod yn dioddef o Anhwylderau Seicotig ac Anhwylderau Personoliaeth Ffiniol, tra bod mwy o ddynion yn dioddef o Bersonoliaeth Gwrthgymdeithasol ac Anhwylderau Deubegynol. Mae dynion yn dangos cynnydd canrannol mwy ar draws y pedwar categori.

Mewn perthynas â phlant a phobl ifanc (y rhai o dan 16 oed), mae Ffigur 22 yn dangos y duedd a ragwelir ar gyfer y rhai sy'n dioddef o ryw fath o anhwylder meddwl. Nodir bod gan ddynion gynrychiolaeth uwch na menywod. Fodd bynnag, rhagwelir gostyngiad yn nifer y plant a phobl ifanc ag anhwylderau meddwl ar draws y ddau ryw rhwng 2020 a 2040; gostyngiad o 7.4 % mewn perthynas â benywod a gostyngiad o 6.1 % mewn perthynas â gwrywod.

**Ffigur 22: Nifer Rhagfynegol y Plant a Phobl Ifanc ag Anhwylderau Meddwl**




## 3.10 CYNLLUNIO IECHYD

Yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer Cynllun Seilwaith Caerdydd 2017-18, gofynnwyd i bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro beth maen nhw am ei gael gan eu gwasanaeth iechyd, gan roi trigolion wrth wraidd y broses gynllunio. Mae crynodeb o'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnwys fel Atodiad I – Ymgynghoriad ar y Gwasanaeth Iechyd. Mae cynllun 2018-21 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o dan yr un penawdau â'r ymgynghoriad, gan fframio datblygiad strategol yn unol â barn y cyhoedd.

Gwrando ar grwpiau nas clywir yn aml[8] wedi dod yn faes ffocws yn arbennig. Gan weithio ar y cyd â phartneriaid, datblygwyd cynlluniau i gyrraedd y grwpiau canlynol:

- Pobl ddigartref
- Teithwyr
- Ceiswyr lloches
- Cymunedau Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol
- Gofalwyr
- Pobl â nam synhwyraidd
- Cymunedau trawsryweddol
- Pobl â rhai cyflyrau Iechyd Meddwl
- Gweithwyr Rhyw

Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar gynllunio a darparu gwasanaethau o fewn y Bwrdd Iechyd. Ym mis Mawrth 2020, cafodd proses y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ei gohirio, a chyflwynwyd Fframweithiau Chwarterol ar gyfer GIG Cymru.

*[7] Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018-2021*
*[8] Mae'r term 'grwpiau nas clywir yn aml' yn cyfeirio at bobl heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n defnyddio gwasanaethau. Gall llawer o ffactorau gyfrannu at ddiffyg llais i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys anabledd, ethnigrwydd, rhywioldeb, namau cyfathrebu, problemau iechyd meddwl, digartrefedd ac arwahanrwydd daearyddol.*
*[9] Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Adroddiad Blynyddol (2020-21)*

Mae rhai o effeithiau parhaol y pandemig ar wasanaethau yn cynnwys:

- Mesurau atal a rheoli heintiau ychwanegol, gan leihau effeithlonrwydd gwasanaethau.
- Amseroedd aros estynedig
- Llai o hyder i glinigwyr a chleifion yn sgil y pandemig
- Mae'n cynyddu cymhlethdod darparu gwasanaethau, gyda'r angen i wahanu rhai grwpiau cleifion er mwyn lleihau trosglwyddiad firysau.

Ym mis Mawrth 2021, nodwyd mai'r risgiau canlynol oedd yn peri'r risg fwyaf i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd:

1. Y gweithlu
2. Cynaliadwyedd Ariannol
3. Gofal Sylfaenol a Chymunedol Cynaliadwy
4. Diogelwch Cleifion
5. Diwylliant Cynaliadwy
6. Asedau Cyfalaf
7. Profi, Olrhain, Diogelu
8. Y risg o gapasiti gofal wedi'i gynllunio'n annigonol
9. Risg o Gyflawni CTCI

Rhagwelir y bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol dros y deng mlynedd nesaf. Mae'n amlwg hefyd y bydd materion cyflogaeth presennol y gweithlu ar draws y ddau sector yn bryder mawr wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn. Bydd ceisio datrys y problemau hyn yn y gweithlu yn faes ffocws allweddol wrth symud ymlaen.

# Tai a Swyddi

## 4.1 CYNLLUNIO DATBLYGU LLEOL

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer twf mewn cartrefi a swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf hyd at 2036. Bydd y cynllun yn helpu i ateb y galw am dai o dwf poblogaeth naturiol a phobl sy'n symud i'r ddinas i fyw a gweithio a bydd yn mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy newydd i bobl sy'n profi digartrefedd a phobl ar restr aros y Cyngor. Bydd hefyd yn rhagweld lefel y swyddi sydd eu hangen dros y cyfnod cynllunio.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae ymgynghoriad wedi'i gynnal ar dri senario twf, gan ddefnyddio ffigurau amcanestyniadau aelwydydd awdurdod lleol fel man cychwyn ar gyfer asesu gofynion y dyfodol. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf (2018) Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar gyfraddau'r gorffennol, yn awgrymu bod angen tua 900 o gartrefi'r flwyddyn drwy oes y cynllun. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y 10 mlynedd diwethaf, pan fu tanddarpariaeth o dai i ddiwallu anghenion tai. Gan ystyried hyn, cyflwynwyd yr opsiynau canlynol i gynorthwyo trafodaeth a chaniatáu ystyried gwahanol lefelau o dwf mewn swyddi a chartrefi:

| | | |
|---|---|---|
| **OPSIWN A (Sylfaen)** | Cyfanswm o tua 19,000 o gartrefi newydd<br>(*gofyniad gweddilliol am 2,140 o gartrefi newydd ychwanegol)<br>Cyfanswm o tua 30,000 o swyddi newydd<br><br>Mae hyn gyfystyr â 1,267 o gartrefi'r flwyddyn ar gyfer cyfnod y cynllun (2021 i 2036) | Yn seiliedig ar darged y Cyngor ar gyfer twf economaidd dros gyfnod y cynllun hyd at 2036.<br>Mae'n modelu effaith poblogaeth twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +1,600 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun.<br>Yn tybio mudo net o 740 o bobl y flwyddyn.<br>Mae'n cyflawni dyheadau economaidd y Cyngor |
| **OPSIWN B** | Cyfanswm o tua 24,000 o gartrefi newydd<br>(*gofyniad gweddilliol am 7,640 o gartrefi newydd ychwanegol)<br>Cyfanswm o tua 32,300 o swyddi newydd<br><br>Mae hyn gyfystyr â 1,600 o gartrefi'r flwyddyn ar gyfer cyfnod y cynllun (2021 i 2036) | Opsiwn a arweinir gan anheddau yn seiliedig ar bolisi.<br>Mae'n modelu effaith poblogaeth twf blynyddol cyfartalog o +1,600 o anheddau'r flwyddyn dros gyfnod y cynllun<br>Yn cydymffurfio'n gyffredinol ag amcanion Ardal Dwf Genedlaethol Cymru'r Dyfodol<br>Mae'n darparu tai fforddiadwy ychwanegol i ddiwallu anghenion a brofwyd<br>Mae'n cyflawni dyheadau economaidd y Cyngor<br>Gallai adfywio ardaloedd defnydd cymysg yn y ddinas |
| **OPSIWN C** | Cyfanswm o tua 30,500 o gartrefi newydd<br>(*gofyniad gweddilliol am 14,790 o gartrefi newydd ychwanegol)<br>Cyfanswm o tua 43,000 o swyddi newydd<br><br>Mae hyn gyfystyr â 2,033 o gartrefi'r flwyddyn ar gyfer cyfnod y cynllun (2021 i 2036) | Yn seiliedig ar ffigurau amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd 2014 ac yn cyfateb i lefelau twf a gynhwysir yn y CDLl mabwysiedig.<br>Mae'r amcanestyniadau hyn yn defnyddio data poblogaeth hanesyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 2001 a 2014.<br>Yn cydymffurfio'n gyffredinol ag amcanion Ardal Dwf Genedlaethol Cymru'r Dyfodol.<br>Mae'n cyflawni dyheadau economaidd y Cyngor<br>Mae'n darparu tai fforddiadwy ychwanegol i ddiwallu anghenion a brofwyd.<br>Gallai adfywio ardaloedd defnydd cymysg<br>Mae'n darparu mwy o ddewis a chyflenwad o safleoedd tai. |

**Ar ôl ystyried cartrefi y gellid disgwyl yn rhesymol y cânt eu gwireddu dros gyfnod y cynllun*

Dylid nodi y gallai'r opsiwn terfynol a gyflwynir yn y Strategaeth a Ffefrir (CDLl drafft) fod yn wahanol ar ôl ystyried yr adborth ar yr opsiynau hyn a dadansoddiad pellach. At hynny, bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i asesu'r ffigurau diweddaraf a mwyaf priodol i'w defnyddio wrth i'r gwaith ar y CDLl fynd rhagddo.

## 4.2 DEMOGRAFFEG NEWIDIOL

Bydd angen i'r gwaith o ddatblygu'r senarios twf ystyried newid demograffig a fydd yn effeithio ar y gwahanol lefelau a mathau o ddarpariaeth tai gan gynnwys gofynion ar gyfer tai marchnad, fforddiadwy a chymdeithasol.

### Poblogaeth sy'n Heneiddio

Dros y deng mlynedd nesaf, disgwylir i ganran y rhai dros 65 oed yng Nghaerdydd gynyddu 15.7% a bydd yn cyfrif am tua 15.8% o'r boblogaeth gyfan. Bydd y grŵp hwn yn effeithio ar y galw am dai â chymorth, gwasanaethau cymorth a'r angen am addasiadau. Ers cyhoeddi Strategaeth Dai Caerdydd, mae Strategaeth Tai Pobl Hŷn Caerdydd 2019-2023 wedi'i chyhoeddi. Mae'r strategaeth yn amlinellu sut bydd y Cyngor a phartneriaid yn llunio ac yn darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig i bobl hŷn sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion a dyheadau, a sut gall y ddarpariaeth hon helpu i gyflawni blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Dyma'r prif faterion a nodir yn y strategaeth:

- **Poblogaeth sy'n heneiddio'n gynyddol:** Erbyn 2037 bydd nifer y bobl sy'n 65-84 oed yn cynyddu gan 42% a bydd y rhai sy'n 85 oed ac yn hŷn bron yn dyblu. Mae hyn yn debygol o gynyddu nifer y bobl y bydd angen llety neu gymorth arbenigol arnynt na ellir ei ddarparu yn eu cartrefi presennol.

- **Buddion cymharol tai ar gyfer pobl hŷn:** Ar gyfartaledd mae cost tai gofal ychwanegol yn 57% o gost wythnosol gofal preswyl. Bydd hyn, ynghyd ag achosion uwch o gyflyrau iechyd a phroblemau symudedd sy'n gysylltiedig ag oedran, yn rhoi pwysau mawr ar wasanaethau a chyllidebau gofal cymdeithasol.

- **Deall yr angen am dai:** Mae amrywiaeth o gynigion tai ymddeol rhent cymdeithasol a phreifat i bobl hŷn yng Nghaerdydd; fodd bynnag, mae darpariaeth yn gyfyngedig y tu allan i ogledd a gorllewin y ddinas. Amcangyfrifir y bydd angen 3,051 o gartrefi ychwanegol i bobl hŷn erbyn 2035.

- **Ateb galw'r dyfodol:** Mae amrywiaeth o gynlluniau ar gyfer adeiladau cartrefi fforddiadwy newydd i bobl hŷn/gofal barod eisoes yn yr arfaeth a bydd y rhain yn darparu 741 o gartrefi newydd erbyn 2030 y bydd 434 ohonynt yn dai Cyngor.

- **Cefnogi annibyniaeth:** Mae Gwasanaethau Byw'n Annibynnol Caerdydd yn darparu amrywiaeth eang o gymorth sy'n canolbwyntio ar helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi. Mae cryn lwyddiant wedi'i gael gyda 75% o gleientiaid yn cael cymorth i aros gartref heb yr angen am ymyriad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Cyngor Caerdydd wedi buddsoddi mewn darparu addasiadau i gartrefi.

- **Rhoi cyngor ar dai:** Pan ofynnwyd iddynt, roedd pobl hŷn yn anymwybodol yn aml o'r gwahanol ddewisiadau tai a oedd ar gael ac roeddent yn pryderu am y materion ariannol, cyfreithiol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â symud.

- **Cefnogi pobl sydd eisiau symud i gartref llai:** Mae buddion sylweddol i bobl hŷn sy'n symud i gartref llai, mwy priodol, a gall hyn chwarae rhan sylweddol wrth eu helpu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi. Gallai cynnig dewisiadau tai deniadol i bobl hŷn eu hannog i symud i gartref llai, a fyddai'n rhoi llety mwy cynaliadwy iddynt gan hefyd ryddhau llety teuluol y mae mawr ei angen.

- **Cynlluniau tai gwarchod:** Bydd darparu cymorth ar y safle mewn cynlluniau gwarchod yn bwysig wrth fodloni anghenion cynyddol y boblogaeth hŷn. Mae cyfle i ddarparu dulliau gwahanol o gymorth megis "gwarchod ychwanegol" neu "gofal ychwanegol ysgafn" fel dewisiadau i fodloni amrywiaeth o anghenion y boblogaeth hŷn.

- **Dyraniad tai cymdeithasol:** Mae angen adolygu'r rhestr aros a'r trefniadau dyrannu er mwyn adlewyrchu dewisiadau tai ac anghenion ehangach pobl hŷn yn llawn.

- **Gofal preswyl a nyrsio:** Mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg newydd i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae lleoliadau gofal preswyl wedi gostwng yn sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf gan fod gwasanaethau bellach ar gael yn y gymuned i gefnogi pobl sy'n gynyddol eiddil yn eu cartrefi.

- **Pwysigrwydd cymuned:** Mae gan Gaerdydd amrywiaeth eang o wasanaethau i helpu i atal allgáu cymdeithasol a hyrwyddo lles; mae llawer yn seiliedig o gwmpas Hybiau cymunedol y Cyngor. Mae nifer o fentrau newydd yn cael eu datblygu i barhau â hyn, gan gynnwys yr Hybiau lles cymunedol yng ngogledd a gorllewin y ddinas a chynigion i agor y cyfleusterau mewn cyfadeiladau tai pobl hŷn i'r gymuned ehangach.

## Gwasanaethau Digartrefedd

Yn 2018, cynhaliodd Cyngor Caerdydd adolygiad cynhwysfawr o ddigartrefedd yng Nghaerdydd, gan arwain at gyhoeddi Strategaeth Ddigartrefedd Caerdydd ar gyfer 2018-2022. Mae'r pwyntiau allweddol a nodir yn y strategaeth yn cynnwys:

- **Galw Cynyddol:** Mae'r galw am wasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol. Mae ceisiadau am gymorth wedi cynyddu 68% ers mis Ebrill 2015. Mae aelwydydd sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref wedi cynyddu 103%.

- **Ymyrraeth Gynnar:** Yn ystod 2017/18, gwnaeth Caerdydd atal 73% o aelwydydd rhag dod yn ddigartref lle ceisiwyd cymorth ar gam cynnar. Hwn oedd y trydydd canlyniad uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw llawer o aelwydydd yn ceisio cymorth cyn dod yn ddigartref ac mae angen cynyddu hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau fel bod mwy o bobl yn cael cymorth yn gynnar.

- **Materion Ariannol:** Ôl-ddyledion morgais a rhent oedd prif achos bygythiad digartrefedd yn 2017/18 gyda 707 o achosion, cynnydd o 247% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae materion cymdeithasol ehangach megis effaith diwygio lles yn cyfrannu at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n profi anawsterau ariannol sy'n arwain at ôl-ddyledion rhent.

- **Y Sector Rhentu Preifat:** Mae colli llety rhent neu lety clwm, ac eithrio drwy ôl-ddyledion rhent, hefyd yn un o brif achosion digartrefedd yng Nghaerdydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod landlordiaid yn gwerthu eu heiddo ac yn gadael y farchnad rhentu preifat. Nodwyd bod lefelau uchel o rent yng Nghaerdydd yn ogystal ag amharodrwydd landlordiaid i osod i hawlwyr budd-daliadau yn rhwystrau rhag defnyddio'r adnodd hwn yn effeithiol. Mae angen cefnogi landlordiaid yn well a chynyddu'r cymhellion iddynt letya ymgeiswyr digartref.

- **Teuluoedd yn Chwalu:** Bu cynnydd o 81% yn nifer y cleientiaid sy'n colli llety a ddarperir gan rieni, perthnasau neu ffrindiau o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2018. Hwn oedd yr achos digartrefedd mwyaf yng Nghaerdydd yn 2017/18. Mae angen adeiladu ar y trefniadau cyfryngu teuluol presennol. Mae pryderon hefyd fod newidiadau i Gynllun Dyrannu Tai Caerdydd yn 2015, a effeithiodd ar statws blaenoriaeth ymgeiswyr sy'n byw gartref, yn cyfrannu at y cynnydd yn y rhai sy'n cyflwyno hysbysiadau rhieni a diwygiadau i'r Cynllun Dyrannu er mwyn mynd i'r afael â hyn.

- **Llwybrau Arbenigol:** Mae angen i nifer uchel o aelwydydd yng Nghaerdydd symud ymlaen o lety a ddarperir gan y Gwasanaethau Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches yn dilyn penderfyniad ar eu hachos. Mae angen adolygu'r llwybr er mwyn sicrhau bod y cleientiaid hyn yn cael cymorth cyn colli eu llety. Mae'r rhai sy'n gadael y carchar yn cyfrif am nifer sylweddol o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd. Prin yw'r cyfleoedd atal gyda'r rhan fwyaf o garcharorion. Mae angen adolygu'r llwybr ar gyfer yr aelwydydd hyn er mwyn asesu a oes lle i wella gwaith atal.

- **Grwpiau Agored i Niwed:** mae gan lawer o gleientiaid faterion cymhleth sy'n deillio o Brofiadau Plentyndod Niweidiol, gan arwain at faterion fel iechyd meddwl a dibyniaeth ar sylweddau. Yn aml, gall y cleientiaid hyn ei chael hi'n anodd cynnal unrhyw fath o lety sy'n arwain at gylch dieflig o ddigartrefedd. Mae angen dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar sail trawma, gyda mewnbwn amlasiantaethol, i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd.

- **Lliniaru Digartrefedd:** Mae gan Gaerdydd ystod eang o dai dros dro a thai cymorth o ansawdd uchel ac mae wedi llwyddo i osgoi defnyddio llety gwely a brecwast ers mis Ionawr 2006. Fodd bynnag, mae nifer y cleientiaid sy'n mynd i lety dros dro wedi cynyddu tra bod y nifer sy'n symud ymlaen i lety parhaol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at dreulio cyfnodau hwy mewn darpariaeth dros dro. Mae angen gwella opsiynau symud ymlaen i atal arosiadau hir mewn llety dros dro.

- **Tai Cymdeithasol:** Mae bron i 8,000 aelwyd ar y rhestr aros ac mae tua 400 o ymgeiswyr newydd yn ymuno bob mis. Ni all y cyflenwad presennol fodloni'r galw am dai cymdeithasol er gwaethaf cynlluniau adeiladu newydd uchelgeisiol. Mae'r Sector Rhentu Preifat yn hanfodol i fynd i'r afael ag anghenion aelwydydd digartref.

- **Cydraddoldeb:** Mae cyfran uchel o ddynion ifanc sengl a'r rhai o gefndiroedd ethnig penodol yn dod yn ddigartref ac mae angen archwilio'r rhesymau dros hyn.

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith arbennig o sylweddol ar wasanaethau digartrefedd; yn ystod 3 wythnos gyntaf yr argyfwng, ailgartrefwyd 140 o gleientiaid i lety lle gallent hunan-warchod/hunanynysu. Sefydlwyd cyfanswm o 182 o unedau llety yn ystod yr argyfwng, gyda chymorth amlasiantaethol yn cael ei ddarparu i gleientiaid. Mae'r profiad o ymateb i'r pandemig wedi amlygu'r angen dybryd i barhau i ddarparu llety ychwanegol gyda chymorth amlasiantaethol i'r tymor hir. O ganlyniad, mae strategaeth ddigartrefedd 'Dim Mynd Nôl' drawsnewidiol wedi'i datblygu, gyda meysydd gwaith allweddol wrth symud ymlaen yn cynnwys darparu llety brys ychwanegol, creu cynllun ailgartrefu cyflym yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a datblygu cynlluniau prydlesu a darpariaeth symud ymlaen.

## 4.3 GALW AM DAI CYMDEITHASOL

Mae galw mawr am dai cymdeithasol yng Nghaerdydd a dim ond nifer gyfyngedig o eiddo sydd ar gael i'w osod bob blwyddyn. Mae gan Gyngor Caerdydd a chymdeithasau tai Cadwyn, Cymuned Caerdydd, Hafod, Linc Cymru, Newydd, Taf, Unedig Cymru a Wales & West Restr Aros Tai Gyffredin ar gyfer tai cymdeithasol.

Er mwyn cynnig y dewis ehangaf o lety i ymgeiswyr, cânt eu hystyried ar gyfer eiddo addas waeth pwy yw'r landlord. Caiff pob ymgeisydd y cyfle i fynegi dewis o ran ble yn y ddinas y mae eisiau byw, a chaiff gynnig gwybodaeth gyfredol am amseroedd aros tai cymdeithasol yn ei ardaloedd dewis.

**Ffigur 24: Galw am Dai Cymdeithasol yng Nghaerdydd**




Mae Cyngor Caerdydd wedi pennu targed y bydd yn adeiladu o leiaf 1,000 o dai Cyngor newydd erbyn Mai 2022 er mwyn ateb y galw cynyddol am dai cymdeithasol fforddiadwy o safon uchel.

Mae'r angen am dai yn cynyddu bob blwyddyn ac mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu cynlluniau tai Cyngor ac i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o wneud hynny. Rhaglen y Cyngor yw'r rhaglen adeiladu tai Cyngor fwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd, a bydd tua £350m yn cael ei fuddsoddi mewn adeiladu amrywiaeth o dai Cyngor newydd mewn symiau mawr ac yn gyflym.

Mae uchelgais Cyngor Caerdydd i adeiladu tai Cyngor yn uniongyrchol ategu targed Llywodraeth Cymru i adeiladu 20,000 o gartrefi fforddiadwy ledled Cymru yn ystod tymor y llywodraeth.

# Addysg a Sgiliau


## 5.1 GALW AR YSGOLION

### Amcanestyniadau Poblogaeth dan 18 oed

Yn yr Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol blaenorol, nododd amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru y bydd 25% yn fwy o bobl dan 18 yn 2036 nag yn 2016. Roedd hyn yn cymharu ag amcanestyniadau ar gyfer Cymru gyfan, lle rhagwelwyd y bydd y boblogaeth ar gyfer y grŵp oedran hwn yn tyfu 0.8% yn unig.

Mae'r amcanestyniadau hyn wedi newid yn sylweddol, gyda'r amcanestyniadau ar sail 2018 bellach yn rhagweld y bydd Caerdydd yn gweld cynnydd o 0.4% ar gyfartaledd yn nifer y bobl dan 18 o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2023. Ar ôl 2023, rhagwelir y bydd gostyngiad cyfartalog o flwyddyn i flwyddyn o 0.5% i 2036, gan arwain at ostyngiad rhagamcanol o 4.4% yn y boblogaeth dan 18 erbyn 2036. Mae amcanestyniad Cymru (cyfanswm) hefyd wedi newid o dwf rhagamcanol o 0.8%, i ostyngiad rhagamcanol o 3.6% yn y boblogaeth dan 18 rhwng 2018 a 2036.

**Ffigur 25: Poblogaeth Dan 18 Oed Caerdydd, 2018 i 2043**




O 2036 ymlaen, rhagwelir y bydd y boblogaeth dan 18 unwaith eto yn dechrau cynyddu ar gyfartaledd o 0.4% i 2043, a fydd yn golygu y disgwylir i'r boblogaeth dan 18 gynyddu 2.7% rhwng 2036 a 2043. Yn gyffredinol, rhwng 2018 a 2043, disgwylir i'r boblogaeth dan 18 ostwng 1.7%.

Mae'r gwahaniaeth sylweddol mewn amcanestyniadau wedi'i ddadansoddi ymhellach. Os gwneir cymhariaeth rhwng yr amcanestyniadau ar gyfer 2018 a 2036, ar gyfer y grŵp oedran 1–12 oed, mewn perthynas â phob categori oedran, dangosodd Cymru ostyngiad, gyda gostyngiadau sylweddol ar gyfer plant 5-10 oed. Ailadroddwyd hyn mewn perthynas â Chaerdydd. Mae hyn yn wahanol iawn i'r adroddiad blaenorol yn 2017, a ddangosodd fod pob grŵp oedran, mewn perthynas â Chaerdydd, wedi dangos cynnydd, gan amrywio rhwng 6% a 9.5%

Ar gyfer pobl ifanc 13-17 oed, rhagwelir y bydd Cymru'n dangos cynnydd ym mhob grŵp oedran, gan amrywio rhwng 0.8% a 9.6%, gyda'r cynnydd mwyaf ymhlith pobl ifanc 15-16 oed. Yng Nghaerdydd, mae'r cynnydd rhagamcanol mwyaf yn y grŵp oedran 16 oed, y rhagwelir y bydd yn codi 12.3%, gyda'r isaf yn y grŵp oedran 13 oed, yr rhagwelir y bydd yn codi 5.4%.

Mae'r amcanestyniadau newydd hyn yn gwbl groes i'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol a gallent effeithio ar gynllunio'r galw ar gyfer ysgolion yng Nghaerdydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid ystyried, yn yr un modd, y


gallai amcanestyniadau a gyhoeddir yn y dyfodol fod yn wahanol iawn i'r amcanestyniadau ar sail 2018. Wrth gynllunio lleoedd mewn ysgolion, mae profiad wedi dangos mai'r ffordd orau o ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru yw mewn cyd-destun ehangach, yn hytrach nag ar eu pennau eu hunain. Mae cyfuno amcanestyniadau â ffynonellau eraill hefyd yn tueddu i greu darlun mwy cywir.

At hynny, dros y 25 mlynedd diwethaf, mae cyfraddau genedigaethau yng Nghaerdydd wedi dilyn patrwm cylchol. Mae'n bosibl y bydd cynnydd a gostyngiadau o hyd yn y gyfradd genedigaethau sy'n wahanol i amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, yn enwedig pan fydd digwyddiadau llai cyffredin, megis effaith y pandemig, yn cael eu hystyried. Mae cyfraddau genedigaethau wedi gostwng yn is na phob un o dri thrywydd amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011, 2014 ac, yn fwyaf diweddar, yn 2020 (yn seiliedig ar ddata 2018). Gallai hefyd godi ar gyfradd uwch yn y dyfodol.

## Disgyblion Meithrin: Amcanestyniadau

Yng Nghaerdydd, gall plant ddechrau yn y feithrinfa yn 3 oed. Awgrymodd dadansoddiad blaenorol o amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru y byddai cynnydd o 8.7% yn nifer y plant 3 oed, o 4,496 yn 2016 i 5,361 yn 2036. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn gosod nifer y plant 3 oed yn 2018 ar 4,380, gan ostwng i 4004 erbyn 2036. Ar ôl 2036, mae'r niferoedd yn dechrau cynyddu eto, gan gyrraedd uchafbwynt o 4,233 erbyn 2043, fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod yn ostyngiad o 3.4% ar gyfanswm 2018. O fis Tachwedd 2021, mae 5,664 o Leoedd Meithrin mewn darpariaeth ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd - mae hyn yn gynnydd o 198 o leoedd (3.6%) o gymharu â 2017. Mae'r amcangyfrif canol blwyddyn presennol (2020) yn rhoi'r boblogaeth 3 oed ar 4,168, sef 53 o blant dros y ffigur rhagamcanol.

**Ffigur 26: Amcanestyniadau Misol Disgyblion Meithrin yng Nghaerdydd, 2018 i 2043**





Dylid nodi bod Cyngor Caerdydd hefyd yn casglu data cofrestru meddygon teulu gan y GIG bob blwyddyn. Mae'r diweddariad diweddaraf, yn 2021, yn dangos carfan blwyddyn academaidd o tua 3,626 o blant – sydd tua 430 o blant yn is nag amcanestyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 0 oed ym mlwyddyn galendr 2021 .

Fodd bynnag, mae hefyd yn rhesymol dod i'r casgliad yn seiliedig ar gylchredau poblogaeth y gorffennol, er bod amseriad a chyfradd y newid yn ansicr, fod nifer y disgyblion sy'n cofrestru y tu hwnt i 2025 yn debygol o gynyddu. Felly, dylid cadw lefel ddigonol ond cynaliadwy o gapasiti dros ben mewn ysgolion er mwyn ymateb i newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol.

*[10] Gan fod amcanestyniadau Cyngor Caerdydd ei hun o nifer y plant 5 oed yn y cyfnod 2021-2025 yn seiliedig ar ddata cofrestru meddygon teulu'r GIG a ddarparwyd ym mis Awst 2021, gellir bod yn go hyderus yn yr amcanestyniadau byrdymor hyn. Rhaid i unrhyw waith cynllunio lleoedd ysgol byrdymor neu dymor canolig yng Nghaerdydd ystyried y data diweddaraf ar gyfraddau genedigaethau sydd ar gael fel y brif ffynhonnell, wedi'i hategu gan amcanestyniadau Llywodraeth Cymru*

## Disgyblion Cynradd ac Uwchradd: Amcanestyniadau

**Ffigur 27: Amcanestyniadau Misol Disgyblion Cynradd ac Uwchradd yng Nghaerdydd, 2018 i 2043**




Bydd disgyblion sy'n 4 oed cyn 31 Awst yn mynychu'r ysgol gynradd tan eu bod yn 11 oed. Dangosodd amcanestyniadau poblogaeth blaenorol Llywodraeth Cymru y byddai cynnydd o 5,656 o blant rhwng 4 a 10 oed erbyn 2036 (cynnydd o 18%). Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau newydd yn dangos gostyngiad o 3,669 erbyn 2036 (11.8%), a gostyngiad o 2,668 erbyn 2043 (8.6%) yn nifer y plant sydd angen lleoedd mewn ysgolion cynradd. Bydd y gostyngiad hwn yn gweld y boblogaeth o'r oedran hwn yn gostwng o 31,148 i 27,428.

Ar hyn o bryd mae 32,231 o leoedd mewn ysgolion cynradd ar gael yng Nghaerdydd, sy'n gynnydd o 1,242 o leoedd (4%) o gymharu â 2017. Mae'r amcangyfrif canol blwyddyn presennol o'r boblogaeth (canol 2020) yn nodi bod 31,355 o blant yng Nghaerdydd rhwng 4 a 10 oed, sef 231 o blant yn fwy na ffigur yr amcanestyniad poblogaeth. Mae hyn yn wahaniaeth o 0.7%.

O ran plant oedran uwchradd, o 11-17 oed, dangosodd amcanestyniadau blaenorol Llywodraeth Cymru gynnydd o 9,318 o blant o 25,057 yn 2016 i 34,375 yn 2036. Mae hyn yn gynnydd o 37.2%. Mae'r amcanestyniadau newydd yn dangos cynnydd o 1,111 rhwng 2018 a 2036, o 26,400 i 27,511, sy'n gynnydd o 4.2% yn unig. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer y plant hyn yn wahanol i'r rhai oedran cynradd gan eu bod yn dangos cynnydd cyson hyd at 2026, cyn lleihau o flwyddyn i flwyddyn tan 2034, pan fydd y cyfanswm wedyn yn aros yn gyson. Ar hyn o bryd mae 24,127 o leoedd ar gael mewn ysgolion uwchradd, sy'n gynnydd o 49 lle (0.2%) o gymharu â 2017. Mae'r amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth (canol 2020) yn rhoi'r boblogaeth o blant 11-17 oed ar 28,101, sef 94 o blant yn fwy na ffigur yr amcanestyniad poblogaeth (gwahaniaeth o 0.3%).

At hynny, gwnaeth adroddiad yn 2020 a gomisiynwyd gan Gyngor Caerdydd gan Edge Analytics – arbenigwyr mewn modelu demograffig – i lywio cynlluniau lleoedd ysgol, gymharu amryw senarios amcanestynedig[11]. Er bod llawer o gyfuniadau gwahanol o dybiaethau y gellir eu cymhwyso wrth ragamcanu niferoedd disgyblion, mae'n amlwg y bydd gostyngiad yn niferoedd disgyblion cynradd Caerdydd dros y 10 mlynedd nesaf, ynghyd â chynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd[12]. O ystyried yr amcanestyniadau amrywiol a'r ansicrwydd cynhenid, rhaid addasu cynlluniau lleoedd ysgol i senarios amgen o dwf, galw a dosbarthiad.

---

[11] *Yn cynnwys amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail 2018; amcanestyniadau data sylfaenol Cyngor Caerdydd – yn seiliedig ar ddata cyn ysgol y GIG a'r cyfrifiad ysgolion; a dau amcanestyniad a arweinir gan adeiladu anheddau, yn seiliedig ar dwf tai blynyddol ar y cyd ag egwyddor a chyfraddau ffrwythlondeb amrywiolyn uwch (fel y'u hystyriwyd gan Lywodraeth Cymru).*

[12] *Dylid nodi bod amcanestyniadau ysgolion cynradd Cyngor Caerdydd yn seiliedig ar ddata CYBLD a'r GIG ac felly'n nodi carfannau presennol. Felly, dylid ystyried modelu fel amcanestyniadau byrdymor, yn enwedig mewn carfannau iau.*

# Trafnidiaeth


## 6.1 CYMUDO

Mae Gwefan StatsCymru yn cynnwys gwybodaeth am batrymau cymudo, gyda gwybodaeth yn cael ei chymryd o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth. Addaswyd y data hwn dros amser ac mae bellach wedi'i ddiweddaru hyd at 2020[13].

Mae gwybodaeth ar gael rhwng 2004 a 2020. Dros y cyfnod hwn o 16 mlynedd, bu cynnydd yn nifer y cymudwyr.

Ar ddechrau 2020, roedd 247,500 o bobl yn gweithio o fewn ffin Awdurdod Lleol Caerdydd. Roedd 150,700 o'r rhain yn byw yng Nghaerdydd, tra bod y 96,800 arall yn cymudo i Gaerdydd bob dydd o ardaloedd cyfagos (39% o weithlu Caerdydd). Yn ogystal â'r ffigur hwn, cymudodd 36,800 o bobl eraill o Gaerdydd i weithleoedd mewn ardaloedd eraill. Mae'r siart canlynol yn dangos nifer y cymudwyr dros gyfnod o 16 mlynedd (mewn 1000oedd).

**Ffigur 28: Tueddiadau Cymudo yng Nghaerdydd, 2004 i 2020**





Er bod tueddiadau dros y cyfnod hwn o 16 mlynedd wedi dangos cynnydd a gostyngiadau, y cynnydd cyfartalog yn nifer y cymudwyr i'r ddinas dros y cyfnod hwn oedd 1,324 y flwyddyn. O ran pobl sy'n cymudo allan o'r ddinas, y cynnydd cyfartalog dros y cyfnod o 16 mlynedd oedd 600 y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae patrymau cymudo wedi newid yn sylfaenol ers mis Mawrth 2020, mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, gyda llawer o bobl bellach yn gweithio gartref neu drwy gyfuniad o weithio gartref ac o'r swyddfa (gweithio hybrid). Cyflwynir tueddiadau cymudo yn ystod y pandemig (yn seiliedig ar ddata symudedd) isod, lle gellir gweld bod cymudo ar hyn o bryd yn parhau ychydig yn is na 60% o'r lefelau cyn y pandemig.

[13] *Mae'r data wedi'i seilio'n bennaf ar lefelau cyn y pandemig.*

**Ffigur 29: Tueddiadau Cymudo o gymharu â'r Lefelau Cyn Covid**




Rhagwelir y bydd niferoedd cymudo'n parhau i adfer dros y misoedd nesaf, ond gyda llawer o gyflogwyr bellach yn mabwysiadu gweithio hybrid fel model ar gyfer yr hirdymor/dyfodol rhagweladwy, gallai blynyddoedd lawer fynd heibio cyn i'r lefelau cymudo ddychwelyd i'r lefelau a welwyd ddiwethaf yn 2019. At hynny, mae Llywodraeth Cymru, yn ei Strategaeth Gweithio'n Gallach (Mawrth 2022), wedi nodi gweledigaeth hirdymor i 30% o'r gweithlu fod yn gweithio gartref.

Dylid nodi hefyd, fodd bynnag, nad yw cymudo'n ond 15% o'r holl deithiau fesul diben teithio drwy'r dydd (o 2019 neu 12% yn 2020, yn ôl yr Arolwg Teithio Cenedlaethol), a bod lefelau traffig yng Nghaerdydd (pob diben teithio) bellach wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

## 6.2 TRAFNIDIAETH A BYWYD BRAF

Mae trafnidiaeth yn cael dylanwad mawr ar y ffactorau sy'n gwneud dinasoedd yn llefydd braf i fyw ynddynt. Mae trafnidiaeth yn cyfrannu at ffyniant drwy ddarparu mynediad i swyddi i bobl ac i gwsmeriaid, a marchnadoedd i fusnesau. Gall y ffordd y mae pobl yn teithio – faint y maent yn cerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a pha mor ddibynnol ydynt ar gar preifat – gael effaith sylweddol ar iechyd pobl a glendid, diogelwch a chynaliadwyedd yr amgylchedd lleol.


Ar gyfartaledd, mae pobl yn treulio tua awr yn teithio bob dydd, felly gall rhwyddineb a chysur teithiau dyddiol i'r gwaith, yr ysgol a siopau gael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd unigolyn. Cydnabyddir y cysylltiad rhwng trafnidiaeth a bywyd braf yng ngweledigaeth y Cyngor ar gyfer trafnidiaeth:

*"System trafnidiaeth integredig sy'n cynnig teithio effeithlon a chynaliadwy i bawb, lle bydd trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ddewisiadau deniadol yn lle teithio mewn car, sy'n cyfrannu at y nod o wneud Caerdydd y brifddinas orau yn Ewrop i fyw ynddi."*

Mae'r strategaeth drafnidiaeth yn seiliedig ar ddau brif gynllun – y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) – sef y prif ddulliau hefyd o sicrhau'r gwelliannau trafnidiaeth sydd eu hangen i helpu Caerdydd i dyfu a dod yn ddinas y mae'n wirioneddol braf byw ynddi.

Cymeradwywyd y CTLl gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2015 ac mae'n nodi'r prif gynigion a dyheadau seilwaith trafnidiaeth ar gyfer y cyfnod 2015-2030. Mae hyn yn cynnwys y cyfnod a gwmpesir hefyd gan y CDLl (2026). Bydd y cynlluniau CTLl yn ategu'r seilwaith trafnidiaeth y byddwn yn ei drafod a'i sicrhau (gyda chefnogaeth polisïau'r CDLl) gan ddatblygwyr safleoedd mawr drwy'r broses gynllunio. Mae'r CTLl wedi gosod targedau penodol hyd at 2026 mewn perthynas â'r dulliau teithio yng Nghaerdydd, fel y dangosir yn Ffigur 30.

**Ffigur 30: Targedau Trafnidiaeth Caerdydd**




## Future Pressures

Mae'r CDLl presennol yn darparu ar gyfer 41,000 (net) o gartrefi newydd a hyd at 40,000 o swyddi erbyn 2026, a fydd yn dwysáu'r pwysau ar y rhwydwaith trafnidiaeth yn sylweddol.

Mae pwysau o gymudo i mewn hefyd yn ychwanegu pwysau ar y rhwydwaith. Caerdydd yw canolbwynt cyflogaeth ranbarthol a, bob dydd, mae nifer fawr o gymudwyr yn teithio i'r ddinas. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr (rhwng 76% ac 84%) sy'n teithio'n ddyddiol i Gaerdydd o ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos yn teithio mewn car (Cyfrifiad 2011).

**Ffigur 31: Cymudo i Mewn i Gaerdydd**



## Symud i Drafnidiaeth Gynaliadwy

Mae dibyniaeth fawr ar deithio mewn ceir yng Nghaerdydd. Mae'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy wedi cynyddu mewn ardaloedd yng nghanol Caerdydd, ond mae trigolion y maestrefi allanol yn parhau i ddibynnu'n drwm ar geir ar gyfer teithio bob dydd.  Er mwyn galluogi'r defnyddwyr ceir hyn i newid, bydd angen dewisiadau amgen ymarferol arnynt a all gystadlu â chyfleustra'r car.

Mae llawer o deithiau dyddiol yn fyr, yn lleol ac o fewn pellter cerdded hawdd. Fodd bynnag, mae ansawdd y seilwaith a'r cyfleusterau i gerddwyr yn amrywio ar draws y ddinas ac mae angen gwelliannau i sicrhau bod ffyrdd a strydoedd yn addas i gerddwyr, gydag anghenion cerddwyr yn cael eu hystyried yn gyntaf.
Mae beicio yng Nghaerdydd yn ffynnu. Mae dros hanner y preswylwyr yn teimlo bod Caerdydd, at ei gilydd, yn lle da i feicio.  Fodd bynnag, mae rhwydwaith llwybrau'r ddinas yn ddarniog iawn ac mae'r amodau ar lawer o ffyrdd yn eu gwneud yn anneniadol i feicwyr. Mae hyn yn esbonio pam mae 8 o bob 10 o drigolion Caerdydd yn credu bod angen gwella diogelwch beicio (Adroddiad Bike Life Cardiff 2015).

Mae ansawdd y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn her fawr i Gaerdydd. Bydd angen newidiadau sylweddol i rwydwaith bysiau'r ddinas, gyda chefnogaeth buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith bysiau, er mwyn gwneud bysiau'n ddewis deniadol ac ymarferol yn lle'r car ar gyfer teithiau bob dydd yng Nghaerdydd.

# Economi

## 7.1 CYFLOGAETH


### Cyfradd Cyflogaeth: Trosolwg

Gan ddefnyddio data o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y gellir ei weld drwy NOMIS), roedd 1.42 miliwn o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mehefin 2021, ac nid yw hynny'n newid sylweddol ers 2017. Mae hon yn gyfradd o 72% o'r rhai 16-64 oed, i fyny 0.4% ers 2017. Bu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2020, pan oedd y gyfradd yn 73.8%, cyn iddi ostwng yn ôl i 72% yn 2021.

Ers 2017, mae cyfanswm nifer y bobl mewn gwaith yn y DU wedi codi 0.2 miliwn, sy'n gynnydd o 0.6% i 31.9 miliwn. Mae hon yn gyfradd o 74.3% o'r rhai 16-64 oed, i fyny o 74.2% yn 2017. Gwelir tuedd debyg ledled Cymru gyfan, lle bu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2020, pan oedd y gyfradd yn 75.8%, cyn iddi ostwng yn ôl i 74.3% yn 2021.

Yng Nghaerdydd, cyfanswm y nifer mewn cyflogaeth yn 2020/21 oedd 188,800, sy'n gynnydd o 17,300 (10%) ers 2017. Mae hon yn gyfradd o 74.5% o'r rhai 16-64 oed, sy'n gynnydd o 6% ers 2017, pan oedd y gyfradd yn 68.5%. Mae Caerdydd wedi dilyn tuedd debyg i'r DU a Chymru, gan ddangos cynnydd rhwng 2017 a 2020, pan oedd y gyfradd yn 76.3%, cyn iddi ostwng yn ôl i 74.5% yn 2021.

**Ffigur 32: Cyfradd Cyflogaeth, Personau (Canran y rhai 16-64 oed), 2005 i 2021**




Mae Cymru a Chaerdydd wedi bod y tu ôl i'r DU yn gyson o ran cyfradd cyflogaeth. Roedd Caerdydd yn is na chyfradd cyflogaeth Cymru o 2010/11 tan 2019, pan gododd Caerdydd yn uwch na chyfraddau Cymru a'r DU, cyn iddi ostwng yn ôl yn 2021 i 0.3% yn is na chyfradd y DU, ond 2% yn uwch na chyfradd Cymru.


Yn 2004/05, roedd Caerdydd yn cyfrif am 11.4% o'r bobl a gyflogwyd yng Nghymru. Yn 2016/17 cynyddodd y ffigur hwn, gyda Chaerdydd yn cyfrif am 13.3%.

## Cyfradd Cyflogaeth: Gwrywod a Benywod

Unwaith eto, gan ddefnyddio data o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y gellir ei weld drwy NOMIS), roedd 741,300 o ddynion mewn cyflogaeth yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn 2020/21, ffigur tebyg i 2016/17. Mae hon yn gyfradd o 74.6% o'r rhai 16-64 oed, sy'n gynnydd o 0.1% o gymharu â 2016/17. Gostyngodd nifer y dynion mewn cyflogaeth yn y DU dros yr un cyfnod gan 174,500 (1%) i 16.7 miliwn. Mae hon yn gyfradd o 77.4% o'r rhai 16-64 oed, sy'n ostyngiad o 1.6% o gymharu â 2016/17.

Roedd 105,300 o ddynion mewn cyflogaeth yng Nghaerdydd ar gyfer y flwyddyn 2020/21, sef cyfradd cyflogaeth o 82.5%, sydd 10% yn uwch na 2016/17, pan oedd cyfanswm nifer y dynion a gyflogwyd yn 89,600. Yn 2016/17, roedd Caerdydd yn cyfrif am 12.1% o'r bobl a gyflogwyd yng Nghymru. Yn 2020/21 cynyddodd y ffigur hwn, gyda Chaerdydd yn cyfrif am 14.2%.


**Ffigur 33: Cyfradd Cyflogaeth, Gwrywod (Canran y Gwrywod 16-64 oed), 2005 i 2021**




Roedd 679,700 o fenywod mewn cyflogaeth yng Nghymru yn 2020/21, i lawr 1,900 (0.3%) o gymharu â 2016/17. Mae hon yn gyfradd o 69.4% o'r rhai 16-64 oed, i fyny o 68.5% yn 2016/17. Nifer y menywod mewn cyflogaeth yn y DU oedd 15.3 miliwn, i fyny 449,700 (3%) o gymharu â 2016/17. Mae hon yn gyfradd o 71.1% o'r rhai 16-64 oed, i fyny o 69.5% yn 2016/17.

Yng Nghaerdydd, fodd bynnag, roedd 83,500 o fenywod mewn cyflogaeth, i fyny 1,500 (1.8%) o gymharu â 2016/17. Mae hon yn gyfradd o 66.4% o'r rhai 16-64 oed, i fyny o 65.5% yn 2016/17. Yn 2016/17, roedd Caerdydd yn cyfrif am 12% o'r benywod a gyflogwyd yng Nghymru. Yn 2020/21 mae'r ffigur hwn wedi cynyddu, gyda Chaerdydd yn cyfrif am 12.2%.

**Ffigur 34: Cyfradd Cyflogaeth, Benywod (Canran y Benywod 16-64 oed), 2005 i 2021**




Mae Ffigurau 33 a 34 yn tynnu sylw at y ffaith y bu newidiadau i'r darlun cyflogaeth ers 2017, gyda'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer dynion yn cynyddu'n sylweddol, tra bod y gyfradd wedi amrywio a gostwng yn ôl i ddim ond 1.4% yn uwch na chyfradd 2017.

O ran y gyfradd cyflogaeth gyffredinol, ar gyfer 2020/21, mae'r gyfradd yn uwch na'r cyfartaledd 17 mlynedd ar gyfer Caerdydd, sef 69.3%, ar 74.0%. O ran y gyfradd cyflogaeth o 82.5% ar gyfer dynion yn 2020/21, mae'r gyfradd yn uwch na'r cyfartaledd 17 mlynedd o 73.7%. O ran menywod, mae'r gyfradd o 66.4% hefyd yn uwch na'r cyfartaledd 17 mlynedd o 65.0%. Mae'r ffigurau hyn yn dangos gwelliant sylweddol ers 2017, er gwaethaf effeithiau'r Pandemig Covid-19.

Yn 2020/21, roedd gwahaniaethau amlwg rhwng y gweithlu gwrywaidd a benywaidd, gydag 87.1% o ddynion mewn cyflogaeth amser llawn a 12.9% yn cael eu dosbarthu'n rhan-amser. O ran menywod, mae'r rhaniad wedi gwella ers yr adroddiad diwethaf, gyda 66.5% mewn cyflogaeth amser llawn a 33.5% yn rhan-amser.


## Data Monitro Cyflogaeth

Mae 5ed Adroddiad Monitro CDLl Caerdydd, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn datgan, o ran cyflogaeth:

*"Mae data monitro yn dangos perfformiad cryf parhaus. Mae data ynghylch creu swyddi net yn arbennig o bwysig - mae angen 40,000 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun 2006-2026. Crëwyd 20,900 o swyddi rhwng 2006 a 2015 ac felly'r targed ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun yw 19,100 o swyddi neu 1,750 o swyddi bob blwyddyn. Ers yr AMB cyntaf (16/17) mae nifer y swyddi wedi bod yn cynyddu'n gyson ac mae'r AMB diweddaraf yn dangos cynnydd o 9,000 o swyddi ers yr AMB cyntaf (16/17)."*

O fis Mehefin 2006, mae gwefan StatsCymru yn dangos bod cyfanswm o 151,800 o bobl mewn cyflogaeth yng Nghaerdydd. Mae Ffigur 35 yn dangos y cynnydd canrannol a'r gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2005/06 a 2020/21.

**Ffigur 35: Cynnydd canrannol o flwyddyn i flwyddyn mewn cyflogaeth yng Nghaerdydd, 2006 i 2021**




Mae Ffigur 35 yn tynnu sylw at y ffaith y bu rhai newidiadau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn dros yr ddwy flynedd ar bymtheg ddiwethaf. Yn gyffredinol, bu cynnydd o 39,000 yn nifer y bobl a gyflogir yng Nghaerdydd, gyda 188,800 bellach wedi'u cofrestru fel rhai cyflogedig. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd blynyddol o 1.5 %, sy'n llawer mwy na'r hyn a ragwelwyd yn 2008 (0.2 % y flwyddyn).


Os bydd y cyfartaledd blynyddol hwn (cynnydd o 1.5 % ) yn parhau tan 2026, yna bydd Caerdydd yn gweld cynnydd pellach o 26,000 yn nifer y bobl a gyflogir. Bydd hyn yn rhoi cyfradd cyflogaeth o 74 % ar gyfer pobl 16-64 oed; fodd bynnag, dylid ystyried bod yr oedran pensiynadwy'n mynd i gynyddu dros y blynyddoedd nesaf; erbyn 2026 bydd hwn yn 66 oed i ddynion a menywod[14].

*[14] Mae dadansoddiad pellach wedi'i gynnal o ran math y gyflogaeth gan ddefnyddio'r data o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol a gafwyd drwy NOMIS. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i'r arolwg yng Nghaerdydd yn isel, sy'n golygu nad yw'r canlyniadau'n ystadegol gadarn ac felly nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.*


## 7.2 CYMWYSTERAU

Mae gwybodaeth o ystadegau Marchnad Lafur NOMIS yn cofnodi canran y bobl 18-64 oed sydd â chymwysterau o dan y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae data ar hyn yn mynd yn ôl i 2008. Mae Ffigurau 36 i 39 yn dangos y tueddiadau blynyddol a gymerwyd o StatsCymru ar gyfer Caerdydd o gymharu â Chymru gyfan. Daw'r wybodaeth hon o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


**Ffigur 36: Tuedd Flynyddol o ran Canran y Bobl 18 i 64 oed sydd â Chymwysterau FfCC Lefel 4 neu Uwch, 2008 i 2020**





**Ffigur 37: Tuedd Flynyddol o ran Canran y Bobl 18 i 64 oed sydd â Chymwysterau FfCC Lefel 3 neu Uwch, 2008 i 2020**




**Ffigur 38: Tuedd Flynyddol o ran Canran y Bobl 18 i 64 oed sydd â Chymwysterau FfCC Lefel 2 neu Uwch, 2008 i 2020**



**Ffigur 39: Tuedd Flynyddol o ran Canran y Bobl 18 i 64 oed sydd Heb Gymwysterau, 2008 i 2020**




Mae'r siartiau hyn yn dangos bod Caerdydd wedi perfformio'n well na Chymru yn gyson o ran y rhai 16-64 oed sydd wedi ennill rhyw fath o gymhwyster. Mae Caerdydd wedi gweld gostyngiad cyson yng nghanran y bobl yn y grŵp oedran hwn nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau. Os bydd y tueddiadau hyn yn parhau, bydd hyn yn rhoi gweithlu Caerdydd mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol.

## 7.3 ANWEITHGARWCH ECONOMAIDD

Mae Proffil Marchnad Lafur NOMIS yn dangos bod Caerdydd, ar gyfer y flwyddyn Gorffennaf 2020 i Fehefin 2021, wedi perfformio'n well na Chymru gyfan ac ychydig yn waeth na'r DU o ran anweithgarwch economaidd. Ystyrir bod 22.6 % o bobl 16-64 oed Caerdydd yn economaidd anweithgar - 24.6 % Cymru a 21.6 % y DU. Mae hyn yn welliant sylweddol ers 2017, pan oedd Caerdydd yn perfformio'n waeth na Chymru a'r DU, gan gofnodi bod 28 % o bobl 16-64 oed yn anweithgar.

Mae **Atodiad II – Gweithgarwch Economaidd**[15] yn dadansoddi gweithgarwch economaidd o ran y rhai sydd am gael swydd a'r rhai nad ydynt am gael swydd, yn ogystal â'r rheswm dros weithgarwch economaidd. Mae'r siartiau'n dangos bod cyfran uchel o'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn cael eu dosbarthu'n fyfyrwyr, gyda chanran gyfartalog dros y cyfnod hwn o 45.5 % ar gyfer Caerdydd. Ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr mae'r cyfartaleddau yn 27.6 % a 28.5 % yn y drefn honno.

O ran y rhai sy'n economaidd anweithgar yn sgil Gofalu am Deulu/y Cartref, ers uchafbwynt o 27.5 % yn 2006/07 mae Caerdydd wedi dangos gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn - i 16 % yn 2020/21. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â Chymru (16.1 % ) a Phrydain Fawr (19.3 % ).

Mae Caerdydd hefyd wedi dangos gwelliant sylweddol mewn perthynas â salwch hirdymor, gyda'r cyfartaledd misol yn 18.1 % o gymharu â chyfartaledd Cymru o 28.9 % a chyfartaledd Prydain Fawr o 23.8 %.


Mae'r rhai y cofnodir eu bod yn economaidd anweithgar oherwydd ymddeoliad yn sylweddol is yng Nghaerdydd (8 % ) nag yng Nghymru (13.6 % ) ac ym Mhrydain Fawr (13.5 % ). Dylid ystyried bod hyn yn ymwneud â'r rhai o oedran gweithio yr ystyrir eu bod wedi ymddeol.

*[15] Daw'r siartiau yn Atodiad II o wefan NOW NOMIS, sy'n cynhyrchu ffigurau ar gyfer Prydain Fawr yn hytrach na'r DU.*


## 7.4 BUDD-DALIADAU ALLAN O WAITH

Bu gwelliant sylweddol, yn genedlaethol ac yng Nghaerdydd, mewn perthynas â phobl 16-64 oed sy'n hawlio budd-daliadau allan o waith. Mae'r siart isod yn dangos y gostyngiad yng Nghaerdydd, o 8.4% ym mis Hydref 1992 i 4.8% ym mis Hydref 2021, sy'n welliant o dros 25%. Mae'r canrannau ar gyfer dynion a menywod wedi dilyn tueddiadau Cymru a Phrydain.


**Ffigur 40: Nifer yr Hawlwyr – Tuedd Blwyddyn, 1992 i 2021**




**Ffigur 41: Nifer y Dynion sy'n Hawlio – Tuedd Blwyddyn, 1992 i 2021**





**Ffigur 42: Nifer y Menywod sy'n Hawlio – Tuedd Blwyddyn, 1992 i 2021**




Gellir gweld y gostyngiad yn nifer yr hawlwyr ar draws pob grŵp oedran. Fodd bynnag, fel y mae ffigurau 43 i 45 yn amlygu, o ran hawlwyr 18 i 24 oed, mae Caerdydd yn is na chyfartaledd y DU a Chymru, ac ar gyfer y grwpiau oedran rhwng 25 a 49 oed a 50+ oed, mae Caerdydd yn uwch na'r cyfartaledd. Dylid nodi y bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau dros gyfnod y Pandemig Covid-19[16].


**Ffigur 43: Nifer yr Hawlwyr 18 i 24 oed, 2013 i 2021**




**Ffigur 44: Nifer yr Hawlwyr 25 i 49 oed, 2013 i 2021**




**Ffigur 45: Nifer yr Hawlwyr 50+ oed, 2013 i 2021**




[16] *Yn Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017, cafwyd gwybodaeth gan NOMIS ynghylch pobl o oedran gweithio a oedd yn hawlio budd-daliadau. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau ar hyn wedi dod i ben, gyda'r data diweddaraf yn dod o fis Tachwedd 2016. Credir bod hyn o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol. Nid oedd ystadegau arbrofol mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.*

## 7.5 SYLFAEN SGILIAU'R DYFODOL

### Arolwg Sgiliau Cyflogwyr

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019, sy'n cwmpasu De-ddwyrain Cymru.

Edrychodd yr adroddiad ar recriwtio a heriau allanol a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Dywedodd ychydig dros un o bob chwe chyflogwr yn Ne-ddwyrain Cymru (17 %) fod ganddynt swyddi gwag ar adeg yr arolwg, a oedd yn gyfran uwch nag ar draws gweddill Cymru (15 %). Roedd hyn yn unol â'r canfyddiadau yn Ne-ddwyrain Cymru yn 2017 (19 %).

- Wrth ystyried swyddi gwag fel cyfran o gyflogaeth, roedd tua un swydd wag ar gyfer pob tri deg o weithwyr yn Ne-ddwyrain Cymru (3.2 %), yr un gyfran ag ar draws Cymru gyfan (3.2 %), ac yn unol â'r canlyniadau yn 2017 (2.8 %). Roedd hyn yn cyfateb i 20,000 o swyddi gwag, cynnydd o 16,900 yn 2017.

- Er nad oedd y rhan fwyaf o swyddi gwag yn anodd eu llenwi am resymau'n ymwneud â phrinder sgiliau, cymwysterau neu brofiad angenrheidiol, gall anawsterau wrth recriwtio gweithwyr oherwydd prinder sgiliau fod yn broblem sylweddol i gyflogwyr. Yn Ne-ddwyrain Cymru, roedd gan 6 % o gyflogwyr swyddi gwag anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau, cymwysterau neu brofiad, yn unol â'r ffigur ledled Cymru (5 %) a'r canlyniadau yn 2017 (6 %).

- Ystyriwyd bod cyfanswm o 25 % o'r swyddi gwag yn anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau yn Ne-ddwyrain Cymru, yn unol â'r dwysedd prinder sgiliau ledled Cymru (24 %) a chanlyniadau cyfatebol yn 2017. Roedd hyn yn cyfateb i tua 4,900 o swyddi gwag prinder sgiliau (SGPSau) ar draws De-ddwyrain Cymru.

- Y sgil fwyaf cyffredin lle gwelwyd prinder ymhlith ymgeiswyr oedd sgiliau neu wybodaeth arbenigol sydd eu hangen i gyflawni rôl (yn cyfrannu at 64 % o SGPSau) ac yna gwaith tîm (45 %). Roedd safleoedd y sgiliau prin mwyaf cyffredin ymhlith ymgeiswyr wedi newid ychydig, gyda gallu ymgeiswyr i reoli eu hamser ddim mor amlwg ag yn 2017, tra bod diffyg gallu i ddarllen a deall cyfarwyddiadau mewn safle uwch.

- Y canlyniad mwyaf cyffredin o bell ffordd o fethu â recriwtio staff newydd oherwydd prinder sgiliau, cymwysterau neu brofiad angenrheidiol oedd llwyth gwaith cynyddol i staff eraill (85 %), yn unol â lefelau Cymru (84 %) a chanlyniadau 2017 (83 %).

Roedd canlyniadau arolwg 2019 yn Ne-ddwyrain Cymru yn gyson iawn â'r rhai yn 2017, ac yn cyflwyno darlun tebyg ledled Cymru, gyda rhai eithriadau nodedig:

- Roedd cyfran y cyflogeion â bylchau sgiliau yn uwch yn Ne-ddwyrain Cymru nag ar draws Cymru, tra bod cyfran lai o staff wedi tanddefnyddio sgiliau a chymwysterau.

- Ers 2017, roedd cyfran y gweithlu sy'n cael ei hyfforddi wedi cynyddu, o bosibl mewn ymateb i'r bylchau sgiliau hyn. Er bod cyfrannau'r staff â bylchau sgiliau yn uwch nag ar draws Cymru, nid oedd cyflogwyr yn Ne-ddwyrain Cymru yn troi at brentisiaethau yn fwy na chyflogwyr yng Nghymru yn gyffredinol, gyda chyfran y gweithlu sy'n ymgymryd â phrentisiaeth yn unol â ffigurau cenedlaethol. Bydd yn bwysig olrhain y gyfran uwch hon o'r gweithlu â bylchau sgiliau yn Ne-ddwyrain Cymru wrth symud ymlaen, ac a yw'r cynnydd yng nghyfran y staff sy'n cael eu hyfforddi yn cyd-fynd â gostyngiad yn nifer yr achosion o fylchau sgiliau.

**Ffigur 46: Canfyddiadau Allweddol Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019 o gymharu â Chanfyddiadau Arolwg 2017**

| | De-ddwyrain Cymru | | Cymru |
|---|---|---|---|
| | **2017** | **2019** | **2019** |
| **Swyddi gwag a swyddi gwag prinder sgiliau (SGPSau)** | | | |
| % y sefydliadau sydd ag unrhyw swyddi gwag | 19 | 17 | 15 |
| % y sefydliadau sydd ag unrhyw swyddi gwag anodd eu llenwi[50] | 8 | 8 | 7 |
| % y sefydliadau sydd â SGPSau | 6 | 6 | 5 |
| % o'r holl swyddi gwag sy'n SGPSau | 25 | 25 | 24 |
| Nifer y swyddi gwag | 16,900 | 20,000 | 40,800 |
| Nifer y swyddi gwag prinder sgiliau | 4,200 | 4,900 | 9,800 |
| **Bylchau sgiliau** | | | |
| % y sefydliadau ag unrhyw staff nad ydynt yn gwbl hyfedr | 14 | 14 | 13 |
| Nifer y staff nad ydynt yn gwbl hyfedr | 29,200 | 28,900 | 50,900 |
| % y staff nad ydynt yn gwbl hyfedr | 4.9 | 4.6 | 4.0 |
| **Hyfforddiant** | | | |
| % y sefydliadau sy'n hyfforddi unrhyw staff dros y 12 mis diwethaf | 62 | 64 | 62 |
| % y sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf | 46 | 45 | 45 |
| % y gweithlu a hyfforddwyd | 58 | 65 | 65 |
| Cyfanswm diwrnodau hyfforddi | 1.8m | 1.9m | 4.2m |
| Diwrnodau hyfforddi fesul hyfforddai | 5.0 | 4.7 | 5.1 |
| Diwrnodau hyfforddi fesul cyflogai | 2.9 | 3.1 | 3.3 |
| **Prentisiaethau** | 2016 | 2019 | 2019 |
| Gyda phrentisiaid ar y safle ar hyn o bryd neu yn cynnig prentisiaethau | 16 | 17 | 16 |
| % y cyflogwyr sy'n bwriadu cynnig prentisiaethau yn y dyfodol | 29 | 28 | 27 |
| Nifer y prentisiaid fesul 1,000 o weithwyr | 18 | 15 | 16 |
| % yn ymwybodol o'r rhaglen Hyfforddeiaeth yng Nghymru | N/A | 29 | 28 |


Yn ogystal ag adroddiad Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019, cafodd pecyn sleidiau ei gyhoeddi yn tynnu sylw at ganlyniadau craidd. Mae siartiau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad III – Sgiliau Cyflogwyr. Yn Ne-ddwyrain Cymru, cynhaliwyd 2,767 o gyfweliadau gyda chyflogwyr dau neu fwy o weithwyr, yn cwmpasu pob sector busnes.

## Awtomeiddio

Mae dadansoddiad a wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi canfod, wrth i dechnoleg ddatblygu, y bydd rhai swyddi'n cael eu colli oherwydd awtomeiddio. Ceir mwy o berygl o awtomeiddio mewn swyddi sgiliau is neu swyddi arferol na galwedigaethau sgiliau uwch.

Felly, ystyrir bod rolau a ddosberthir fel 'sgiliau is' yn wynebu'r risg fwyaf, gyda galwedigaethau elfennol gan gynnwys gweinyddwyr bwytai a llenwyr silffoedd yn wynebu'r tebygolrwydd mwyaf o awtomeiddio yn y dyfodol. Canfuwyd mai rolau a ystyrir yn 'sgiliau uwch' sy'n wynebu'r risg isaf o awtomeiddio, yn enwedig rhai galwedigaethau neu reolwyr proffesiynol, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion. Y tair galwedigaeth y bernir eu bod yn wynebu'r risg isaf o awtomeiddio yw ymarferwyr meddygol, gweithwyr addysgu proffesiynol addysg uwch, ac uwch weithwyr proffesiynol sefydliadau addysgol.

**Ffigur 47: Tebygolrwydd Awtomeiddio yn ôl Categori Swydd Mawr, DU, 2017 (SYG, 2019)**




At hynny, canfuwyd mai'r rhai mewn cyflogaeth sy'n 20-24 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o awtomeiddio, gyda 15.7 % o'r rhai a gyflogir o fewn rolau yn cael eu hystyried yn 'risg uchel'. Mae'r risg hon yn gostwng gydag oedran tan ei phwynt isaf ar 35-39 oed (1.3 %), lle mae risg yn dechrau codi eto hyd at y grŵp oedran 60-65 (7.7 %).

Dengys dadansoddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn 2017 fod menywod yn dal 70.2 % o'r rolau sydd â risg uwch o awtomeiddio. Mae pobl sy'n gweithio'n rhan-amser hefyd yn fwy tebygol o weithio mewn rolau sydd mewn mwy o berygl o awtomeiddio.

## Sgiliau Digidol

Mae angen sgiliau digidol bellach ar gyflogwyr mewn galwedigaethau ar draws pob lefel sgiliau. Hyd yn oed ymhlith swyddi sgiliau is, mae 77 % o hysbysebion swyddi yn y DU mewn galwedigaethau sy'n gofyn am sgiliau digidol, gan gynyddu i 85 % ar gyfer swyddi sgiliau canol ac 83 % o swyddi sgiliau uwch. Dengys dadansoddiad o Fforwm Economaidd y Byd y bydd sgiliau sy'n gysylltiedig â thechnoleg yn cyfrif am y sgiliau a werthfawrogir fwyaf erbyn 2025. Fodd bynnag, bydd meysydd na ellir eu hefelychu gan ddefnyddio technoleg, megis deallusrwydd emosiynol, perswadio a negodi, yn cadw eu gwerth ac yn parhau i weld galw yn y dyfodol rhagweladwy.

# 7.6 BUSNESAU


Mae Proffil Marchnad Lafur NOMIS yn cynnwys data ar Gyfrifiadau Busnes y DU. Mae'r data yn y Proffil yn cael ei gasglu o ddarn a gymerwyd o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR)[17], gan gofnodi sefyllfa unedau ym mis Mawrth y flwyddyn gyfeirio. Mae'r IDBR yn cynnwys gwybodaeth am fasnachwyr TAW a chyflogwyr TWE mewn cofrestr ystadegol, sy'n darparu'r sail i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) gynnal arolygon o fusnesau. Mae'r Proffil yn cyflwyno dadansoddiad o fusnesau ar lefel menter ac uned leol[18].

## Mentrau

Yn 2021, yng Nghaerdydd, cofnodwyd bod 87.6 % o'r busnesau menter yn 'ficro', gyda 0 i 9 o weithwyr. Mae hyn yn is na chanrannau Cymru a Phrydain Fawr o 89.1 % ac 88.7 % yn y drefn honno. Nifer wirioneddol y microfusnesau yng Nghaerdydd yn 2021 oedd 10,490, sy'n gynnydd o 10.8 % ar gyfanswm 2016 o 9,465.

O ran mentrau bach, sydd â 10 i 49 o weithwyr, mae gan Gaerdydd gyfanswm o 1,190 ar gyfer 2021, sy'n gynnydd o 35 (3 %) ar gyfanswm 2016 o 1,155. Mae canran y mentrau o'r maint hwn yng Nghaerdydd yn fwy na Chymru a Phrydain Fawr.


**Ffigur 48: Tueddiadau Blynyddol Micro-Fentrau (0 i 9)**




*[17] Daw'r wybodaeth am gyflogaeth ar yr IDBR yn bennaf o Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Busnes (BRES). Gan fod hyn yn seiliedig ar sampl o fentrau, defnyddiwyd amcangyfrifon o ffurflenni blaenorol ac o arolygon eraill y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd. Ar gyfer yr unedau lleiaf, defnyddir naill ai swyddi TWE neu gyflogaeth a briodolir i drosiant TAW. Mae'r amcangyfrifon yn y tablau a gyflwynir yn yr adran hon wedi'u talgrynnu i atal datgeliad.*


*[18] Menter yw'r cyfuniad lleiaf o unedau cyfreithiol (yn gyffredinol yn seiliedig ar gofnodion TAW a/neu TWE (Talu Wrth Ennill) sydd â rhywfaint o ymreolaeth o fewn grŵp menter. Gelwir safle unigol (er enghraifft ffatri neu siop) mewn menter yn uned leol.*

**Ffigur 49: Tueddiadau Blynyddol Mentrau Bach (10 i 49)**





Mae nifer y mentrau canolig, sy'n cyflogi 50 i 249 o bobl, wedi cynyddu 11.9% ers 2016, i gyfanswm o 235, tra bod nifer y mentrau mawr, gyda 250 neu fwy o weithwyr, wedi gostwng 30%, gyda 60 bellach wedi'u cofrestru o gymharu â 65 yn 2016.

**Ffigur 50: Tueddiadau Blynyddol Mentrau Canolig (50 i 249)**




**Ffigur 51: Tueddiadau Blynyddol Mentrau Mawr (250+)**



## Unedau

O ran micro-unedau unigol, mae 12,370 yng Nghaerdydd sy'n cyflogi 0 i 9 o weithwyr. Mae hyn yn gynnydd o 870 o unedau (7.6 %) ar gyfanswm 2016 o 11,500. Cynyddodd unedau bach, sy'n cyflogi 10 i 49 o bobl, gan 30 uned (1.3 %). Cynyddodd unedau canolig, sy'n cyflogi 50 i 249 o weithwyr, gan 10 (1.7 %). Mae unedau mawr, sy'n cyflogi 250 neu fwy o weithwyr, wedi cynyddu gan 5 uned (4.5 %) o gymharu â 2016 pan roedd 110 o unedau.

O'r dadansoddiad hwn, byddai'n arwain at y dybiaeth bod y gwelliant mewn cyflogaeth yn deillio o'r cynnydd mewn micro-unedau a micro-fentrau neu gallai fod o ganlyniad i gynnydd mewn maint mewn perthynas â'r unedau/mentrau mwy.

Wrth ystyried unedau yn ôl math o ddiwydiant (ffigur 52), mae Caerdydd wedi gweld cynnydd canrannol sylweddol yn nifer yr unedau Trafnidiaeth a Storio yn ystod y blynyddoedd diwethaf (cynnydd o 86 % rhwng 2016 a 2021).

**Ffigur 52: Unedau yn ôl Math o Ddiwydiant yng Nghaerdydd, 2016 i 2021**

| | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Gwahaniaeth ol Rhwng 2016/2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (A) | 40 | 40 | 40 | 50 | 40 | 50 | 25% |
| 2 : Mwyngloddio, chwarela a chyfleustodau (B,D ac E) | 90 | 80 | 80 | 90 | 90 | 80 | -11% |
| 3 : Gweithgynhyrchu (C) | 490 | 480 | 480 | 470 | 470 | 530 | 8% |
| 4 : Adeiladu (F) | 1,210 | 1,290 | 1,350 | 1,350 | 1,370 | 1,450 | 20% |
| 5 : Masnachau moduro (Rhan G) | 390 | 380 | 400 | 410 | 400 | 410 | 5% |
| 6 : Cyfanwerthu (Rhan G) | 520 | 520 | 510 | 500 | 500 | 520 | 0% |
| 7 : Manwerthu (Rhan G) | 1,580 | 1,580 | 1,550 | 1,540 | 1,530 | 1,620 | 3% |
| 8 : Trafnidiaeth a storio (gan gynnwys post) (H) | 360 | 370 | 370 | 410 | 440 | 670 | 86% |
| 9 : Gwasanaethau llety a bwyd (I) | 1,080 | 1,090 | 1,140 | 1,150 | 1,190 | 1,190 | 10% |
| 10 : Gwybodaeth a chyfathrebu (J) | 980 | 1,040 | 1,030 | 1,060 | 1,120 | 1,070 | 9% |
| 11 : Ariannol ac yswiriant (K) | 630 | 640 | 630 | 640 | 650 | 600 | -5% |
| 12 : Eiddo (I) | 610 | 630 | 640 | 670 | 680 | 710 | 16% |
| 13 : Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (M) | 2,280 | 2,330 | 2,270 | 2,300 | 2,330 | 2,250 | -1% |
| 14 : Gweinyddu busnes a gwasanaethau cymorth (N) | 1,450 | 1,480 | 1,440 | 1,470 | 1,470 | 1,430 | -1% |
| 15 : Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn (O) | 170 | 170 | 180 | 170 | 170 | 190 | 12% |
| 16 : Addysg (P) | 440 | 490 | 460 | 460 | 460 | 460 | 5% |
| 17 : Iechyd (Q) | 1,140 | 1,170 | 1,150 | 1,100 | 1,110 | 1,110 | -3% |
| 18 : Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill (R,S,T ac U | 1,110 | 1,110 | 1,100 | 1,130 | 1,150 | 1,150 | 4% |
| Cyfanswm y Golofn | **14,570** | **14,910** | **14,820** | **14,960** | **15,170** | **15,490** | 6% |

## Cyflogaeth yn ôl Diwydiant

Mae Data Mynediad Agored yr Arolwg o'r Gofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) ar gael ar NOMIS ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 a 2020. Mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys gwybodaeth am gyflogaeth yng Nghaerdydd yn ôl diwydiant. Felly mae ffigur 53 yn dangos cyfanswm cyflogaeth yn ôl diwydiant ac mae'n cynnwys cyflogeion ynghyd â nifer y perchnogion sy'n gweithio[19].

**Ffigur 53: Cyfanswm Cyflogaeth yn ôl Diwydiant yng Nghaerdydd, 2015 i 2020**

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | Gwahaniaeth ol Rhwng 2015/2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 : Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (A) | 75 | 600 | 75 | 125 | 125 | 150 | 100% |
| Mwyngloddio, chwarela a chyfleustodau (B,D ac E) | 5,000 | 4,500 | 5,000 | 5,000 | 6,000 | 5,000 | 0% |
| Gweithgynhyrchu (C) | 10,000 | 9,000 | 8,000 | 9,000 | 9,000 | 9,000 | -10% |
| Adeiladu (F) | 7,000 | 8,000 | 8,000 | 8,000 | 8,000 | 8,000 | 14% |
| Masnachau moduro (Rhan G) | 3,500 | 3,000 | 2,500 | 3,000 | 4,000 | 3,000 | -14% |
| Cyfanwerthu (Rhan G) | 6,000 | 6,000 | 4,500 | 4,000 | 6,000 | 4,000 | -33% |
| Manwerthu (Rhan G) | 21,000 | 20,000 | 19,000 | 19,000 | 18,000 | 16,000 | -24% |
| Trafnidiaeth a storio (gan gynnwys post) (H) | 6,000 | 5,000 | 5,000 | 6,000 | 4,500 | 4,500 | -25% |
| Gwasanaethau llety a bwyd (I) | 15,000 | 17,000 | 14,000 | 15,000 | 16,000 | 16,000 | 7% |
| Gwybodaeth a chyfathrebu (J) | 5,000 | 8,000 | 13,000 | 8,000 | 9,000 | 9,000 | 80% |
| 11 : Ariannol ac yswiriant (K) | 12,000 | 12,000 | 13,000 | 14,000 | 14,000 | 13,000 | 8% |
| Eiddo (I) | 2,500 | 3,500 | 3,000 | 4,000 | 4,000 | 4,000 | 60% |
| Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (M) | 16,000 | 14,000 | 17,000 | 17,000 | 17,000 | 17,000 | 6% |
| Gweinyddu busnes a gwasanaethau cymorth (N) | 22,000 | 22,000 | 23,000 | 21,000 | 20,000 | 20,000 | -9% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn (O) | 15,000 | 15,000 | 16,000 | 16,000 | 18,000 | 22,000 | 47% |
| Addysg (P) | 22,000 | 22,000 | 22,000 | 21,000 | 22,000 | 22,000 | 0% |
| Iechyd (Q) | 28,000 | 29,000 | 30,000 | 31,000 | 30,000 | 28,000 | 0% |
| Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill (R,S,T ac U) | 10,000 | 10,000 | 11,000 | 11,000 | 9,000 | 10,000 | 0% |
| Cyfanswm y Golofn | **204,000** | **208,000** | **214,000** | **212,000** | **213,000** | **212,000** | 4% |

O gymharu 2015 â 2020:

- Mae'r cynnydd rhifiadol mwyaf mewn cyflogaeth yn y categori Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn, sy'n dangos cynnydd o 7,000 (47%). Yn ail mae Gwybodaeth a Chyfathrebu, gyda chynnydd o 4,000 (80%). O gymharu 2015 â 2020:

- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf o fewn y Diwydiant Mwyngloddio, Chwarela a Chyfleustodau, gyda chynnydd o 100%, fodd bynnag, dim ond 0.7% o'r rhai a gyflogir yng Nghaerdydd y mae'r diwydiant hwn yn eu cyflogi.

- Y diwydiant Iechyd yw'r diwydiant cyflogaeth mwyaf, sy'n cyfrif am 13.2% o'r rhai mewn cyflogaeth, ond nid yw'r diwydiant hwn wedi dangos unrhyw gynnydd yn nifer y bobl a gyflogir o gymharu â 2015. Ar ôl twf o flwyddyn i flwyddyn tan 2018, mae nifer y cyflogeion wedi gostwng i'r un lefel ag yn 2018.

- Tra bod Trafnidiaeth a Storio wedi dangos y cynnydd canrannol uchaf mewn unedau (86%), mae nifer y cyflogeion wedi gostwng 25%.


- Mae'r sectorau Manwerthu a Chyfanwerthu wedi dangos gostyngiadau, o 24% a 33% yn y drefn honno, yn nifer y cyflogeion ac wedi dangos twf o ddim ond 3% a 0% mewn perthynas ag unedau.

[19] *Mae BRES yn cynnwys gweithwyr hunangyflogedig, cyn belled â'u bod wedi'u cofrestru ar gyfer cynlluniau TAW neu TWE. Mae pobl hunangyflogedig nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer y rhain, ynghyd â Lluoedd Ei Mawrhydi a hyfforddeion a gefnogir gan y Llywodraeth, wedi'u heithrio.*

## 7.7 CYLLID SECTOR CYHOEDDUS


Cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) ei rhagolygon tymor canolig yn y Rhagolygon Economaidd a Chyllidol – Hydref 2021. Mae’r adroddiad yn manylu ar chwyddiant, Cynnyrch Domestig Gros, benthyca gan y llywodraeth, cyfraddau treth, ac effaith y pandemig Covid-19. Mae’n cynnwys rhagolygon hyd at 2026-27. Cynyddodd chwyddiant yn uwch na 3% ym mis Awst 2021, a disgwylir iddo gyrraedd uchafbwynt o 4.4% yng nghanol 2022 cyn disgyn yn ôl i’w darged o 2%. Yn seiliedig ar y rhagolwg diweddaraf, mae benthyca’n dal i fod ar uchafbwynt ôl-ryfel o £320 biliwn, neu 15.2 y cant o’r Cynnyrch Domestig Gros, yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae hyn £35 biliwn yn is na’r rhagolygon cychwynnol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021. Mae’r gwahaniaeth hwn yn deillio’n bennaf o danwario gan adrannau’r llywodraeth, yn enwedig yn achos Rhaglen Profi ac Olrhain y GIG.

**Ffigur 54: Chwyddiant MPD**




Ar nodyn cadarnhaol, mae’r SCC yn cydnabod bod llawer o ragolygon wedi tanamcangyfrif hyblygrwydd y DU i amodau pandemig, sy’n golygu y gallai’r effeithiau ‘creithio’ economaidd hirdymor fod yn fach iawn. O ran refeniw treth, mae’r cyfuniad o godiadau treth corfforaethol a phersonol a gyhoeddwyd yn golygu bod mwy o godiadau treth wedi’u cyhoeddi eleni nag mewn unrhyw flwyddyn ers 1993 (yn sgil Dydd Mercher Du). Mae’r codiadau treth hyn, ynghyd â’r llusgiad cyllidol a ragdybiwyd yn y rhagolwg, yn codi’r baich treth cyffredinol o 33.5% o’r Cynnyrch Domestig Gros cyn y pandemig i fwy na 36% o’r Cynnyrch Domestig Gros yn y cyfnod rhagweld, sef y lefel uchaf ers dechrau’r 1950au.

**Ffigur 55: Refeniw Treth**




Wrth i straen y pandemig Covid-19 ar wasanaethau cyhoeddus leddfu, mae gwariant cyhoeddus wedi gostwng yn ôl o’i uchafbwynt adeg heddwch o 53% o’r Cynnyrch Domestig Gros yn 2021, i ychydig yn is na 42% o’r Cynnyrch Domestig Gros yn nhair blynedd olaf y cyfnod rhagweld. Mae hyn yn dal i fod bron 2% yn uwch na gwariant cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae ffurf y wladwriaeth ôl-bandemig yn adlewyrchu newidiadau cymdeithasol a demograffig, megis mwy o wariant ar y GIG, gofal cymdeithasol a phensiynau, sy’n adlewyrchu’r cynnydd yng nghyfran y boblogaeth sydd dros 65 oed.

# Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

## 8.1 NEWID YN YR HINSAWDD


Mae'r hinsawdd fyd-eang yn parhau i gynhesu, gyda'r tymheredd byd-eang cymedrig ar gyfer 2020 yn cael ei gofnodi fel un o'r tair blynedd gynhesaf a gofnodwyd. Y cyfartaleddau pum mlynedd a deng mlynedd diwethaf hefyd yw'r rhai cynhesaf a gofnodwyd.

Erbyn y 2050au yng Nghymru, rhagwelir y bydd tymheredd cyfartalog yr haf yn codi 1.34 gradd, gyda disgwyl i lawiad yr haf ostwng tua 16%. Rhagwelir y bydd glawiad y gaeaf yn codi 5% a rhagwelir y bydd lefelau'r môr yn codi 24cm yn Ne Cymru (Caerdydd). Erbyn y 2080au, rhagwelir y bydd tymheredd cyfartalog yr haf yn fwy na dwbl yr hyn a ragwelwyd ar gyfer y 2050au, ynghyd â chynnydd sylweddol uwch yn lefelau'r môr yn Ne Cymru (Caerdydd).

Mae'r canlyniadau'n eang, gan gynnwys mwy o risg o lifogydd, llifogydd amlach, tywydd poeth amlach, dirywiad mewn cydnerthedd ecosystemau, dirywiad mewn rhywogaethau a mwy o achosion o blâu a chlefydau sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd a mynediad at fwyd iach - yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Yn hollbwysig, nid yw'r risgiau hyn yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ac mae rhai o'r rhai mwyaf agored i niwed a difreintiedig ledled Cymru yn wynebu'r effeithiau mwyaf difrifol.

Mae'r ffeithlun a ddangosir yn Ffigur 56, o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021, yn crynhoi'r rhagfynegiad newid yn yr hinsawdd erbyn 2050 a 2080.

**Ffigur 56: Rhagfynegiadau Newid Hinsawdd erbyn 2050 a 2080**



## 8.2 ALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR


### Allyriadau Byd-eang a Chymru gyfan

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang wedi tyfu bob blwyddyn ers 2009, ar gyfradd o 1.5 % bob blwyddyn. I gyfyngu'r cynnydd tymheredd byd-eang i 1.5ºC , amcangyfrifir y byddai angen i allyriadau byd-eang ostwng 7.6 % bob blwyddyn rhwng 2020 a 2030. Disgwylir i ddatgarboneiddio cyflymach, datblygiadau mewn technolegau carbon isel, ac addewidion datgarboneiddio rhyngwladol arwain at lefelu allyriadau byd-eang. Yng Nghymru, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr domestig wedi gostwng bron i draean ers 1990, yn bennaf oherwydd diddymiad graddol pŵer glo.

Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y galw am drydan yng Nghymru yn dyblu erbyn 2050 oherwydd galwadau newydd mewn adeiladau, ac o'r sectorau trafnidiaeth a diwydiant, wrth iddynt symud i ffynonellau cyflenwi trydan adnewyddadwy. Bydd angen cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy er mwyn ateb y galw hwn tra'n lleihau allyriadau. Ceir anghydraddoldebau allyriadau llwm hefyd rhwng y bobl gyfoethocaf a'r bobl dlotaf; mae'r 10 % cyfoethocaf o boblogaeth y DU yn gyfrifol am chwarter cyfanswm allyriadau'r DU, gan gynhyrchu dros bedair gwaith yn fwy o allyriadau na'r 50 % tlotaf.

Mae Ffigurau 57 a 58, o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 Llywodraeth Cymru, yn dangos amcangyfrifon allyriadau a lefelau allyriadau gwirioneddol y DU.


**Ffigur 57: Amcangyfrifon Allyriadau Byd-eang o dan Senarios Cyllideb Carbon Amrywiol**




---

[20] *O dan Gytundeb Paris 2015, cytunodd gwledydd i gyfyngu ar gynhesu byd-eang i ymhell islaw 2ºC, ac yn ddelfrydol i 1.5 C, o gymharu â lefelau cyn-ddi-wydiannol.*


**Ffigur 58: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr, 2008-2019**




## Allyriadau ledled Caerdydd

Dengys data BEIS (Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol) mai Caerdydd sydd â'r ffigur uchaf ond un ar gyfer allyriadau CO2 y pen o blith 'Dinasoedd Craidd' y DU. Allyriadau domestig a thrafnidiaeth sy'n cyfrannu fwyaf at allyriadau CO2 yng Nghaerdydd a rhagwelir y byddant yn cynyddu. Mae cysylltiad cryf rhwng y galw am drydan a nwy domestig a thwf yn y boblogaeth a rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn parhau i godi dros y 25 mlynedd nesaf.

**Ffigur 59: Allyriadau CO2 Caerdydd yn ôl Prif Fath o Allyriadau (% o Gyfanswm yr Allyriadau), 2015-2019**



Mae'r Adroddiad Pweru Dinasoedd y Dyfodol (2016) yn rhagweld, o holl ddinasoedd mawr y DU, mai Caerdydd fydd yn gweld y cynnydd mwyaf arwyddocaol yn y galw am drydan domestig rhwng 2015 a 2035, ar 44%. Yng Nghaerdydd hefyd y rhagwelir y cynnydd mwyaf yn y galw am nwy domestig, ar 28%.

O ran allyriadau trafnidiaeth yng Nghaerdydd, roedd 51.2% o'r ymatebwyr i'r Arolwg Trafnidiaeth diweddaraf yn teithio i'r gwaith gan ddefnyddio dulliau cynaliadwy o deithio, gan ragori ar darged rhaniad moddol 50/50 y Cyngor. Bu newid sylweddol hefyd mewn beicio fel dull o deithio, o 10% yn 2016/17 i 15% yn 2019/20.

Fodd bynnag, mae hyn yng nghyd-destun y tueddiadau presennol sy'n dangos bod traffig ceir yng Nghymru yn cynyddu. Yn ogystal, dros y degawd diwethaf, mae teithiau mewn faniau ac ar drenau wedi gweld cynnydd sylweddol, tra bod teithiau bws wedi gostwng ac, er bod y galw am feicio wedi mwy na dyblu, mae'n dal i gyfrif am gyfran fach iawn o deithio cyffredinol. Wrth symud ymlaen, disgwylir gostyngiad yn yr allyriadau ceir cyffredinol yn seiliedig ar boblogrwydd cynyddol cerbydau trydan.

## 8.3 LLYGREDD AER

Llygredd aer yw un o broblemau iechyd ac amgylcheddol mwyaf y byd, gan gyfrannu at 9% o farwolaethau yn fyd-eang. Er bod lefelau allyriadau nitrogen deuocsid niweidiol yn parhau i ostwng ledled y DU, de Cymru sydd â rhai o'r lefelau uchaf o lygredd aer. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif y gellir priodoli hyd at 1,400 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru i lygredd aer.

Mae'r risg hon ar ei huchaf i bobl sy'n byw mewn lleoliadau trefol ac wrth ymyl ffyrdd ac yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, lle mae iechyd ac ansawdd aer yn tueddu i fod waethaf a lle gall amddifadedd a dylanwadau iechyd gwael amharu ar allu unigolyn i ymdopi ag effeithiau cysylltiad â llygredd aer.


Mae amcanestyniadau gan y Grŵp Arbenigwyr Ansawdd Aer (2019) yn awgrymu, er bod allyriadau peipen wacáu yn debygol o barhau i ostwng yn dilyn symudiad tuag at gerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel iawn, bod allyriadau nad ydynt o beipiau gwacáu yn debygol o dyfu yn unol â lefelau traffig cynyddol. Mae'r gronynnau bach iawn hyn yn cael eu rhyddhau i'r aer drwy draul teiars, breciau cerbydau ac arwynebau ffyrdd.

Yn dilyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, gwelwyd gostyngiad amlwg o 40% mewn llygredd aer yng nghanol Caerdydd o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn (er enghraifft, cyfartaledd o 14.4 µg/m3 o gymharu â 23.9 µg/m3 yn Heol Frederic). Roedd gwelliannau mewn ansawdd aer ar draws y ddinas yn parhau i gael eu gweld yn dilyn cyfnodau clo dilynol, gyda gostyngiadau'n ymddangos yn fwy mewn ardaloedd llai difreintiedig. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod cyfran uwch o oedolion sy'n gweithio yn gallu gweithio gartref yn yr ardaloedd hyn.

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut bydd patrymau teithio tymor canolig a hirdymor yn edrych ar ôl y pandemig. Mae arolygon cyfredol o fusnesau yn y ddinas ac yn fwy cyffredinol ledled y DU yn awgrymu y bydd patrwm gweithio 'hybrid' yn cael ei weld a fyddai'n gweld pobl yn cymudo i weithio ar lai o ddiwrnodau bob wythnos. Gallai hyn wella ansawdd aer.

Mae Ffigur 60, o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2021, yn dangos crynodiadau cymedrig blynyddol o NO2 yn y DU, 1990-2020 (DEFRA, 2021).

**Ffigur 60: Crynodiad Cymedrig Blynyddol o NO2 yn y DU, 1990 i 2020**




## 8.4 PERYGL LLIFOGYDD

Mae llawer o eiddo yng Nghaerdydd mewn perygl o lifogydd ar hyn o bryd. O'r 33 ardal yng Nghymru y nodwyd sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd, mae 5 yng Nghaerdydd: Llaneirwg, Y Rhath, Treganna, Glan-yr-afon a Grangetown (Cofrestr Cymunedau mewn Perygl, Cymru). Mae dros 22,000 o eiddo yng Nghaerdydd yn derbyn rhybudd llifogydd yn awtomatig.

Bydd effeithiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cynyddu nifer yr eiddo, y seilwaith a'r gwasanaethau allweddol a fydd mewn perygl o lifogydd o bob ffynhonnell. Gallai lleoedd nad oeddent mewn perygl o'r blaen fod yn agored i niwed a gallai llawer sydd mewn perygl ar hyn o bryd fod mewn mwy o berygl. Disgwylir y bydd digwyddiadau difrifol, fel stormydd 2020, yn dod yn fwy cyffredin, gyda llifogydd mwy difrifol ac amlach. Bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd hefyd yn cynyddu'r risg i asedau diogelwch llifogydd a'r costau i'w cynnal i safonau derbyniol. Mae'n debygol y bydd angen gwelliannau sylweddol ar rai o amddiffynfeydd Caerdydd.

Ni fydd yn bosibl atal pob achos o lifogydd; felly mae angen defnyddio amrywiaeth o ddulliau addasol. Fodd bynnag, rhaid i hyn gael ei wneud yn gyflymach er mwyn cadw i fyny ag effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd. Mae Atodiad IV – Perygl Llifogydd Caerdydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru am lifogydd yng Nghaerdydd.

# ATODIAD I – YMGYNGHORIAD AR Y GWASANAETH IECHYD

## Grymuso’r Person

Rydw i eisiau:

- Gwybod sut i leihau fy risg o ddatblygu clefyd
- Cael cefnogaeth i wneud unrhyw newidiadau i’m ffordd o fyw sy’n fy ngalluogi i fyw bywyd iach
- Gwybod am raglenni sgrinio a all helpu i ganfod clefydau’n gynnar a sut i gael gafael arnynt.
- Mynediad cyflym at wasanaethau sy’n gallu gwneud diagnosis o’m clefyd yn gynnar
- Eglurhad clir a manwl o’m cyflwr
- Deall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael a chael cymorth i ddewis yr un sydd orau i mi, gan gyfrif am fy anghenion personol, diwylliannol a chorfforol.
- Triniaeth sy’n rhoi’r cyfle gorau i mi wella
- Cael gwybod am yr holl wasanaethau a allai fy helpu
- Gwasanaethau sy’n diwallu fy anghenion fel unigolyn, gan barchu’r rolau rwy’n eu chwarae yn fy mywyd personol a theuluol.
- Mynediad hawdd at gyngor o ansawdd uchel. Rwyf am allu siarad â phobl sy’n fy adnabod ac yn deall fy afiechyd a’i driniaeth.
- Penderfynu sut a ble mae fy ngofal yn cael ei ddarparu ar ddiwedd fy mywyd; a
- Chael fy nhrin â charedigrwydd, parch ac urddas bob amser

## Gartref Gyntaf

Mae angen i mi:

- Ddeall fy nghyflwr a’i driniaethau fel y gallaf fod yn rhan o’r gwaith o gynllunio fy ngofal, chwarae rhan yn y gwaith o fonitro fy nghyflwr a chydnabod amseroedd lle mae angen i mi gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd.
- Cael mynediad cyflym at weithwyr gofal iechyd proffesiynol gwybodus a all roi cyngor i mi ar beth i’w wneud pan fydd fy iechyd yn dirywio.
- Cael gofal sy’n cael ei ddarparu yn agos i’r lle rwy’n byw ac yn gweithio, fel y gallaf barhau i fyw bywyd mor normal â phosibl, tra’n parhau i weithio’n agos gyda thimau clinigol i sicrhau’r triniaethau gorau posibl.
- Cael gofal sydd wedi’i gydlynu fel bod pwrpas clir i bob apwyntiad, ac nad oes yr un ohonynt yn cael eu gwastraffu.

## Canlyniadau sy’n Bwysig i Bobl

Rydw i eisiau:


- Byw bywyd hir ac iach
- Cael diagnosis cyflym pan fyddaf yn datblygu unrhyw glefyd
- Cael triniaethau sy’n rhoi’r cyfle gorau i mi wella neu sicrhau’r canlyniad gorau posibl i mi.
- Triniaethau wedi’u teilwra i’m hanghenion
- Gweld fy symptomau a’m sgil-effeithiau yn cael eu rheoli’n effeithiol ac yn dosturiol
- Cael fy nhrin â charedigrwydd, parch ac urddas ar bob pwynt yn fy ngofal.
- Cynnal fy annibyniaeth a chael yr ansawdd bywyd gorau posibl
- Gweld gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthfawrogi fy amser ac yn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu’n effeithiol ac yn effeithlon
- Marw’n gyfforddus mewn lle o’m dewis i


## Osgoi Niwed, Gwastraff ac Amrywiad


Rydw i eisiau:


- Cael cynnig y triniaethau gorau, mwyaf effeithiol bob amser, waeth ble rwy'n byw a pha weithiwr iechyd proffesiynol rwy'n ei weld.
- I bob penderfyniad ynglŷn â'm gofal gael ei wneud gan glinigwyr profiadol sydd â dealltwriaeth o'm cyflwr.
- Derbyn gofal cydgysylltiedig gan amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol, sy'n cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd ac yn gweithio fel tîm.
- Derbyn y feddyginiaeth sy'n iawn ar gyfer fy nghyflwr ac yn fwyaf diogel i mi bob amser, a deall unrhyw risgiau a sgil-effeithiau posibl a allai fod ganddynt.
- Un cofnod iechyd sy'n galluogi fy holl ddarparwyr gofal iechyd i rannu gwybodaeth ac osgoi ailadrodd.
- Gweithio mewn partneriaeth â'm tîm iechyd i osgoi triniaethau ofer a, lle bo angen, datblygu cynllun diwedd oes clir


# ATODIAD II – GWEITHGARWCH ECONOMAIDD
















# ATODIAD III – SGILIAU CYFLOGWYR

## Sgiliau technegol ac ymarferol y mae prinder ohonynt ymhlieth ymgeiswyr: De-ddwyrain Cymru





## Effaith swyddi gwag prinder sgiliau: De-ddwyrain Cymru





Sylfaen: Pob sefydliad yn Ne-ddwyrain Cymru sydd â swyddi gwag anodd eu llenwi sydd i gyd o ganlyniad i brinder sgiliau (2019: 198; 2017: 196)

**Sgiliau pobl a phersonol y mae prinder ohonynt ymhlith ymgeiswyr: De-ddwyrain Cymru)**





Sylfaen: Pob un sydd â swyddi gwag prinder sgiliau yn Ne-ddwyrain Cymru - traciwyd hyd at ddwy alwedigaeth (2019: 213; 2017: 202). Dangosir y ffigurau fel canran o'r holl swyddi gwag prinder sgiliau a draciwyd (nid canran o bob sefydliad)

## Prif achosion bylchau mewn sgiliau: De-ddwyrain Cymru





Sylfaen: Pob un sydd â swyddi gwag prinder sgiliau yn Ne-ddwyrain Cymru - traciwyd hyd at ddwy alwedigaeth (2019: 520; 2017: 488).
Dangosir y ffigurau fel canran o'r holl fylchau sgiliau a draciwyd (nid canran o bob sefydliad)

## Sgiliau technegol ac ymarferol y mae angen eu gwella ymhlith staff sydd â bylchau mewn sgiliau: De-ddwyrain Cymru




Sylfaen: Pob sefydliad sydd â bylchau sgiliau yn Ne-ddwyrain Cymru (2019: 520; 2017: 488). Dangosir y ffigurau fel canran o'r holl fylchau sgiliau a draciwyd (nid canran o bob sefydliad)

## Dwysedd y bylchau sgiliau yn ôl galwedigaeth: De-ddwyrain Cymru





| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2,200 | 1,400 | 1,200 | 2,300 | 2,600 | 3,300 | 4,500 | 5,300 | 6,100 |

Nifer y bylchau sgiliau (2019)


Sylfaen: Pob sefydliad yn Ne-ddwyrain Cymru sydd â staff yn y galwedigaethau penodol (mae meintiau sylfaen 2019 yn amrywio o 450 ar gyfer Gweithredwyr Peiriannau i 2,631 ar gyfer Rheolwyr)

## Dwysedd y bylchau sgiliau yn ôl sector: De-ddwyrain Cymru





Sylfaen: Pob sefydliad yn Ne-ddwyrain Cymru (sylfeini 2019 yn amrywio o 45 Gweinyddiaeth Gyhoeddus i 574 Cyfanwerthu a Manwerthu). Lle mae meintiau sylfaen rhwng 30 a 49, mae seren wedi'i chynnwys wrth ymyl y label data. Pan fo meintiau sylfaen yn gymharol fach, mae'r mesurau cyfeintiol (a dwysedd) yn arbennig o agored i gael eu dylanwadu gan rai sefydliadau sydd â nifer fawr o swyddi gwag; dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn

## Effaith bylchau sgiliau: De-ddwyrain Cymru





Sylfaen: Pob sefydliad sydd â bylchau sgiliau yn Ne-ddwyrain Cymru (2019: 520; 2017: 488)

## Cyfran ag unrhyw angen uwchsgilio yn ystod y 12 mis nesaf: De-ddwyrain Cymru





Sylfaen: Pob sefydliad yn Ne-ddwyrain Cymru (Modiwlau B a D) (meintiau sylfaen yn amrywio o 25 mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus i 247 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu). Lle mae meintiau sylfaen o dan 30 o fewn sector, mae data wedi'i ddileu (wedi'i ddynodi gan seren ddwbl); lle mae meintiau sylfaen rhwng 30-49; mae seren wedi'i chynnwys wrth ymyl y label data.

## Sgiliau pobl a phersonol y mae angen eu gwella ymhlith staff sydd â bylchau sgiliau: De-ddwyrain Cymru




Sylfaen: Pob sefydliad sydd â bylchau sgiliau yn Ne-ddwyrain Cymru (2019: 520; 2017: 488).
Dangosir y ffigurau fel canran o'r holl fylchau sgiliau a draciwyd (nid canran o bob sefydliad)

# ATODIAD IV – PERYGL LLIFOGYDD CAERDYDD




| Eiddo wedi'i gofrestru gyda Gwasanaeth Rhybuddio am Lifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (Tachwedd 2021) | |
|---|---|
| **Wedi cofrestru'n llawn**<br><br>(Wedi cofrestru eu hunain â'r Gwasanaeth Rhybuddio am Lifogydd) | 7,762 |
| **Rhybuddion Uniongyrchol Estynedig**<br><br>(Wedi cofrestru'n awtomatig â'r Gwasanaeth Rhybuddio am Lifogydd drwy optio allan) | 14,329 |
| **Y cyfanswm a fydd yn derbyn rhybudd llifogydd** | 22,091 |

| | Risg Heddiw (Gydag Amddiffynfeydd) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | Llanw | | | Afonol | | | Dŵr Wyneb | | |
| **Caerdydd** | isel | canolig | uchel | isel | canolig | uchel | isel | canolig | uchel |
| **Preswyl** | 12062 | 77 | 0 | 15648 | 864 | 298 | 6310 | 663 | 368 |
| **Amhreswyl** | 1584 | 94 | 2 | 2041 | 96 | 43 | 710 | 126 | 60 |